


ECO'R WYDDFA

RHIF 136

MAI 1988

PRIS 20c

LLYWYDD NEWYDD Y GYMDEITHAS FEDDYGOL GYMRAEG



Yn ystod Cynhadledd Wanwyn y Gymdeithas Feddygol Gymraeg yn Abertawe yn ddiweddar, anrhydeddwyd y Dr. Alwyn Miles o'r Waunfawr â'i llywyddiaeth am eleni.

Sefydlwyd y Gymdeithas yn nechrau'r saithdegau ac mae Dr. Miles yn un o'r aelodau gwreiddiol. Dr. Emyr Wyn Jones, un arall o fechgyn Waunfawr, oedd y llywydd cyntaf gydag ond tua ugain o aelodau. Erbyn hyn, a gŵr arall o'r Waun wrth y llyw, mae dros 200 o aelodau yn perthyn i'r Gymdeithas - Meddygon sy'n gweithio ym mhob maes yn y byd meddygol.

Yn ystod y gynhadledd cafwyd darlithoedd gan arbenigwyr fel Meirion Thomas, llawfeddyg ymgynghorol yn Ysbyty Westminster, Llundain ar 'agweddau diweddar yn nhriniaeth Cancr y Fron' a'r Dr. Dafydd Alun Jones ar 'Rhyfel ac Anafiadau Meddyliol Gohiriedig.'

Roedd gwestai arbennig yng Nghinio'r Gynhadledd sef y Dr. J.T. Kolane, sef Uwch Gomisiynydd Lesoto.

Gwlad fechan yn Ne Affrica yw Lesoto a bu aelodau'r Gymdeithas yn brysur yn casglu offer meddygol ar gyfer y meddygon yno.

Llongyfarchiadau i Dr. Miles a phob llwyddiant iddo yn ystod ei flwyddyn brysur sy'n ei wynebu.

**CYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL YR ECO
NOS IAU, MAI 5
NEUADD GOFFA BETHEL
AM 7.00**

**Croeso cynnes i bawb sydd â
diddordeb yn Y Papur Bro**

STUART YN CYNRYCHOLI CYMRU ETO



Llongyfarchiadau gwresog i Stuart Williams, Bethel ar ennill ei gap pêl-droed cyntaf dros ei wlad. Mae eisoes wedi cynrychioli Cymru mewn criced (dan 16 oed). A dyma fo, (yn eistedd yn drydydd o'r dde) yn y garfan dan 18 oed cyn eu gêm yn erbyn bechgyn Gweriniaeth Iwerddon yn ddiweddar. Llun o Stuart (mewn cap gwahanol!) a rhagor o'i hanes ar y dudalen olaf.

GWYNEDD YN YMATEB I ARGYMHELLION Y PLANT



Ychydig fisoedd yn ôl, fel rhan o'u cywaith ar ddiogelwch y ffyrdd, anfonodd plant Safon 3 Ysgol Gynradd Llanrug lythyr yn cynnwys eu hargymhellion ar gyfer y pentref at Adran Ffyrdd Gwynedd. Ar ôl gwyliau'r Pasg, derbyniasant lythyr cynhwysfawr oddi wrth syrfewr y Sir ac ynddo cytunai â nifer o'i hawgrymiadau (Manylion yng ngolofnau newyddion Llanrug, tudalen 16). Yn ddiweddar, bu rhai o'r plant yn trafod eu syniadau ar y rhaglen radio "Canllaw".

CARTREFI'R GYMRAEG - LLE MAE NHW?

Mae'r Canolfannau Gwaith yn hysbysebu 12 o swyddi ar hyn o bryd i Gyd-Bwyllgor a sefydlwyd i hybu'r Gymraeg.

Yn 1984 sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Polisi Dwyieithrwydd i holl Gynghorau Gwynedd a bydd, yn fuan iawn, yn mynd ati i recriwtio 12 o weithwyr ar gynllun fydd yn chwilio ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yng Ngwynedd a cheisio gweld ble nad yw'n cael ei siarad a phaham.

Llwyddodd y Cyd-Bwyllgor i gael nawdd y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr i'r Cynllun hwn fydd yn parhau am 12 mis. Dano bydd 2 holwr yn gweithio yn rhan amser ym mhob Dosbarth Bwrdeistref yng Ngwynedd ac yn ymweld â phobl yn eu cartrefi ac yn holi ynghylch arferion siarad Cymraeg a Saenseg. Gwna hyn 10 swydd i holwyr yn gweithio ym mhob rhan o Wynedd; bydd y Ganolfan ym Mangor ac yn cael ei rhedeg gan oruchwyliwr amser llawn gyda chymorth ysgrifenyddes amser llawn. Deuddeg o swyddi i gyd.

Dyweddodd Rhodri Davies, Ysgrifennydd y Cyd-Bwyllgor:

Dan y cynllun bydd gwybodaeth newydd yn cael ei chasglu; caiff ei

phrosesu yn y cyfrifiaduron diweddaraf a'r gobaith yw y bydd y casgliadau yn help i lywodraeth leol addasu polisiâu penodol gyda golwg ar hybu'r arfer o siarad y Gymraeg dan bob amgylchiad - disgwylir y bydd gwybodaeth fuddiol iawn ar gael i adrannau megis y rhai Addysg, Cynllunio, Llyfrgell a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Tua diwedd y cynllun bydd y gweithwyr yn treulio cyfnod yn paratoi llyfryn bychan yn cyflwyno manylion cymdeithasegol y Gymraeg a'r Saesneg yng Ngwynedd.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb yn y swyddi gysylltu yn ddioed â'r Ganolfan Gwaith Leol.

ECO'R WYDDFA

RHIF 136
MAI 1988

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU MAI 26ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAI 17eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

ANGEN GWYBODAETH AM "TAN-Y-MARCHLYN" DEINIOLLEN

Annwyl Olygydd,

Ym 1986 teithiais o gwmpas y byd
ar y trên hyd Hong Kong ac yna ar
draws yr Unol Daleithiau a Chanada
gyda'r bws 'Greyhound'. Wrth groesi
Siberia ar y trên yr oeddwn yn siarad
gyda rhyw Americanwr am Gymru
a'r diwydiant llechi. Soniodd yntau
mai yn Allentown, Pennsylvania y
ganwyd ef, nid yn bell o'r dref bach
Bangor a'i chwareli, pan soniodd ef
hefyd am ryw Gymraes Bronwen
Pritchard sy'n byw yn yr ardal honno,
penderfynias alw heibio er mwyn
cael dipyn o wybodaeth efallai am y
cysylltiad Cymreig.

Y canlyniad oedd, treuliais noson
olaf y daith yn hynod o ddiddorol ar
aelwyd Mr a Mrs Pritchard, ac ar ôl
inni wnued y wibdaith sy'n cynwys
Bangor, mwynheais swper a thipyn o
fiwsig Cymreig gan fy mod i wedi
mynd â offer yn recordio a thâp o
fiwsig Cymraeg. Y diwrnod wedyn
roeddwn yn hedfan adref.

Toc wedyn, ysgrifenis lythyr i
ddiolch am y fath groeso ac anfonais
hefyd rhai tapiau sy'n cynnwys
Hogiau'r Wyddfa, Toni ac Aloma,
Cymanfa Ganu yn Neuadd Albert ac
ati. Derbynias gerdyn diolch sy'n
cynnwys y geiriau hyn "Wyt ti wedi
codi hiraeth am yr hen wlad, fy nhad
a fy mam a Tan-y-Marchlyn".

Tybed oes yna unrhywun ym mro
Deiniolien sy'n cofio unrhywbeth am
Tan-y-Marchlyn?

Adfail wrth gwrs ydy'r hen fwthyn
ar hyn o bryd ac yn anffodus nid wyf
yn gwybod enw Mrs Pritchard cyn
priodi.

Y mae yna bosibilrwydd fy mod i'n
mynd i'r Unol Daleithiau a Chanada
yn ystod yr Hydref a byddwn wrth fy
modd cael cyfle i alw heibio yn
Windgap — lle mae Mr a Mrs
Pritchard yn byw — gyda llun y
bwthyn ac unrhyw atgofion sy'n
bodoli hyd heddiw.

Yr eiddoch yn ddiffuant,
Richard Carrington,
60 Highfield Rd.,
Blacon,
Caer.
CH1 5AZ.

DIOLCH

Gan ei fod erbyn hyn wedi ymddeol o'r
busnes gwerthu glo, mae Evan Davies,
Tanygraig, Ceunant yn dymuno diolch
yn ddiffuant iawn i'w holl gyfeillion a
chwsmeriaid am eu cefnogaeth a'u
ffyddlondeb iddo yn ystod y
blynyddoedd.

Mae'n falch o ddweud ei fod erbyn
hyn yn mwynhau gwell iechyd ac yn
edrych ymlaen at gael ymddeoliad
hapus.

Dymuna ddiolch yn gynnes iawn i'w
ffrind a chynorthwyr Tom Pritchard
am bob cymorth a chefnogaeth a
gresyna nad yw ei iechyd yn caniatáu
iddo ef ymgymeryd â'r busnes.

Gobeithio y bydd ei gyn-gwsmeriaid
yn awr yn cefnogi Hugh Hughes, a'i
feibion Llanberis, a dymuna yn dda iawn
iddo yn y busnes.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

HEADWAY GWYNEDD

Sefydlwyd y grŵp Headway gan nifer
o arbenigwyr yng nghanolbarth
Lloegr rai blynyddoedd yn ôl i
gynorthwyo'r miloedd o bobl a
phlant yn dioddef ar ôl niwed difrifol
i'r pen ac epilepsy. Y mae prif
ganolfan Headway yn 200 Mansfield
Rd, Nottingham BG1 3HX. Tel. (0602)
622382. Y mae nifer ohonom ym
Mangor yn ceisio sefydlu grŵp yng
Ngwynedd, dan nawdd Nottingham,
i gynnig cefnogaeth, cyngor a
gwybodaeth i'r bobl hynny yng
Ngwynedd sy'n teimlo'n unig a
gwrthodedig, oherwydd nid oes
unman yng Nghymru, na chanolfan
asesu nac ysbyty, sy'n delio â
chanlyniadau niwed o'r fath.

Ein prif amcan yw sefydlu yng
Ngogledd Cymru, rhwydwaith o
gynhorwyr i gynorthwyo nid yn unig
yrhai a niweidiwyd, ond y mamau a'r
tadau sy'n gofalu amdanynt, ac y
mae'n bwysig bod pobl o'r fath yn
cysylltu â ni i sicrhau angen gref yng
Ngwynedd. Y mae amryw o
arbenigwyr yn Ysbyty Gwynedd yn
cynorthwyo'r fenter hon, ac y mae'r
awdurdod wedi rhoddi caniatad i ni
gyfarfod yn yr ysbyty am 7.30 p.m. y
trydydd Llun ym mhob mis.

Bob blwyddyn y mae miliwn o bobl
ym Mhrydain yn cael damwain
ddifrifol i'r pen. Ar ôl eu triniaeth yn
yr ysbyty (os yw hyn yn bosib) cyn
belled ag y mae'r Awdurdod lechyd
yn y cwestiwn, anghofir amdanynt yn
llwyr. Pam? Am y rheswm syml nad
oes darpariaeth ar eu cyfer. Gall
damwain o'r fath ddigwydd i rywun,
unrhyw amser. Ceisiwch ein
cynorthwyo trwy gysylltu â ni, neu'n
well fyth, ceisiwch ddod i'r cyfarfod
nesaf yn Ysbyty Gwynedd, 7.30 p.m.
Mai 16eg.

Y mae llwyddiant neu fethiant y
fenter uchod yn dibynnu ar eich
ymateb chwi.

Yn ddiolchgar,
Cledwyn Jones,
Ysgrifennydd,
Tawelfan,
Penrhosgarnedd,
Bangor.

PWYLLGOR IEUENCTID AC ADLONANT EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990

Annwyl Gyfaill,

Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r
Pwyllgor Ieuenctid ac Adloniant yn
ddiweddar i gynnal cystadleuaeth i
lunio arwyddlun ac enw i'r babell
Ieuenctid a fydd ar faes yr Eisteddfod
yn 1990.

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae'n
arferiad bellach i gael pabell
adloniant ar faes prifwyl yr Urdd, e.e.
Urddgrug (Wyddgrug), Ffrwydro
Ffrancon (Bethesda) etc.

Gwahoddir plant a phobl ifanc
dalgyrch yr Eisteddfod i:

1. Ddyfeisio enw addas ar gyfer y
babell adloniant

A NEU

2. Llunio arwyddlun addas ar gyfer y
babell adloniant.

RHEOLAU:

1. Dylai'r enw a'r arwyddlun fod yn
berthnasol i'r Eisteddfod.

2. Dylai'r gwaith fod yn ymgais ddilys
plant a phobl ifanc dan 25 oed sy'n
byw yn nhalgylch yr eisteddfod.

3. Dylid meddwl am arwyddlun tri
neu bedwar lliw.

4. Dylid rhoi enw, oedran, a
chyferiaid yr ymgeisydd yn eglur ar
bob ymgais.

5. Bydd gan y pwyllgor hawl i addasu
unrhyw enw neu arwyddlun, a bydd
hawlfraint yr enw a'r arwyddlun yn
eiddo i Eisteddfod Genedlaethol yr
Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon.

6. Os nad yw'r Pwyllgor yn gwbl
hapus ar yr enw neu'r arwyddlun
buddugol, cedwir yr hawl i beidio â'u
mabwysiadu fel rhai swyddogol.

GWOBRAU: Rhoddir gwobr o £15 am
yr enw gorau, a £15 hefyd am yr
arwyddlun gorau (neu £30 am
gyfuniad o'r ddau), yn ogystal â
thocyn wythnos i'r Eisteddfod.

Anfoner y cynnyrch at John Bryn
Owen, 12 Cae Bryn, Y Groeslon,
erbyn Mai 20, 1988.

Gobeithio y cawn enw ac
arwyddlun arbennig o dda, ac y caiff
holl blant a phobl ifanc y dalgyrch
hwyl wrth baratoi'r gwaith.

Diolch yn fawr iawn am eich
cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,

John Bryn Owen,
(Cadeirydd.)

CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON YSGOL SYR HUGH OWEN CAERNARFON

Diolch i bawb am eu cefnogaeth
wych i'n Ffair Wanwyn. Rydym yn
hynod ddiolchgar i athrawon, rhieni a
disgyblion yr ysgol am eu cymorth
gyda'r prynu a'r gwerthu.

Gwnaed elw o dros £1,000 a bydd
hyn yn sefydlu'r gymdeithas ar
sylfeini ariannol cadarn i'r dyfodol.
Diolch yn fawr i bawb.

Yn gywir iawn,

Eurig Wyn,
Cadeirydd.

Y Frenni,
Waunfawr.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Annwyl Olygydd,

Unwaith eto 'rym ar drothwy
Wythnos Cymroth Cristnogol arall.
Mor gyflym mae'r flwyddyn yn
carlamu. Megis ddod roeddwn yn
eich cyfarch ac yn diolch i bawb am
gefnogi'r gwan a'r anghenus drwy
Gymroth Cristnogol.

Dymunaf ddatgan ar ran staff
Cymroth Cristnogol yng Nghymru
ein bod yn gwerthfawrogi ymroad ac
ymateb pobl led led ein gwlad. Mae'n
galonogol dweud fod cyfanswm yr
hyn a gasglwyd yn ystod Wythnos
Cymroth Cristnogol 1987 yn fwy nag
erioed o'r blaen, gyda phobl Cymru
yn cyfrannu £293,000. Mawr yw'n
dyled i'n holl gefnogwyr gwirfoddol
am drefnu gweithgareddau yn eu
broydd ac am gasglu o ddy i ddy.

Mae'r hyn a dderbyniwyd
flwyddyn yn ôl, bellach yn sialens i
wneud eto'n well eleni. Felly apeliaf
at holl ddarllewnyr ein "Papurau
Bro" yng Nghymru i wneud eu gorau
glas i roi gobaith newydd i'n
cyd-ddyn yn y Trydydd Byd.

Mae angen y diymgeledd a'r
diamddiffyn yn fawr — rhoddwn
iddyt y cyfle i ddatblygu eu bywyd
gyda'r cyfrifoldeb i fyw heb ormes na
thrais pwerau grymus ein byd.

Gyda dymuniadau da i weithwyr
dyfal a chydwybodol eich "Papur
Bro" ac i'r holl ddarllewnyr.

Yn ddiffuant iawn,

Wynn Vittle,
Ysgrifennydd Cymroth Cristnogol,
27 Heol yr Eglwys,
Eglwys Newydd,
Caerdydd.

APÊL PENBLWYDD SYR WYNFF A PLWMSAN '88

Annwyl Olygydd,

Hoffem dynnu eich sylw at y Gronfa Uchod.

Fel y gwddoch, mae Syr Wynff ap Concord y Bos a Plwmsan y Twmffat Twp yn dathlu eu penblwydd yn bymtheg oed eleni, ac i nodi'r achlysur rydym wedi lansio apêl arbennig i brynu anrheg penblwydd.

Ein bwriad yw casglu digon o arian i brynu bws mini, wedi ei addasu, ar gyfer cludo ein cyfeillion anabl sy'n trigo ym Mhlas Tre Marl, yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r Cartref yn gwasanaethu talgylch eang iawn, yn wir gallwn ddweud fod Tre Marl yn gofalu am bobol o bob rhan o Ogledd Cymru.

Ond pam sefydlu Apêl i brynu bws mini?

Wel, er bod y Cartref yng Nghyffordd Llandudno, yn nhref Llandudno mae'r Gweithdy — siwrnai oeddeutu deunaw miltir, 'nôl a 'mlaen — ac mae'n orfodol iddynt logi bws i'w cludo, a hynny'n ddyddiol. Os cyfyd achos iddynt fynd i'r theatr neu i'r pictiws, gyda'r nos dweder, yr un yw'r anhawster.

Apeliwn ar i'n cyfeillion led-led Cymru barhau i gefnogi'n hymgyrch; sylweddolwn fod yna ofyn parhaus tuag at wahanol achosion da, ond erfyniwn arnoch i'n cefnogi, gan mai dyma'r unig ffordd y gallwn esmwytho ychydig ar y sefyllfa ym Mhlas Tre Marl.

Tristwch pethau a hithau'n 1988, yw fod yn rhaid inni lansio Apêl o gwbl!

Mae ganddom dros £5,000 ym Manc Lloyds, 11 Stryd y Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AH, a derbynir arian dan ofal Clwb S4C, Clos Sophia, Caerdydd, CF1 9XY, neu drwy'r Banc.

Ein nod yw codi £15,000 felly mae clamp o gamp o'n blaenau. Sefydlwyd ymddiriedolaeth i weinyddu'r Gronfa. Yr ymddiriedolwyr yw: Elinor Wigley, Owen Edwards, Gareth Lloyd-Williams, Mici Plwm a Wynford Ellis Owen.

Diolch am eich cefnogaeth i'r Apêl. Yn gywir iawn, Syr Wynff ap Concord a Plwmsan y Twmffat Twp. (Wynford Ellis Owen a Mici Plwm.)

DIOLCH I BOBL LLANRUG

Annwyl Olygydd,

Ddiwedd Mawrth fe roddais goreu i weithio ar bwyllgor Carnifal Llanrug ar ôl yn agos i ugain mlynedd. Er mawr syndod i mi derbyniais anrheg ganddynt wrth ymddeol.

Hoffwn gael diolch iddynt yn

gyhoeddus am yr anrheg eu geiriau caredig a'u cwmpeini difyr dros y blynyddoedd. Yn yr un modd buaswn yn falch iawn o ddiolch i'r pentrefwyr a roddodd gymaint o gefnogaeth i mi dros y blynyddoedd a dymunaf bob llwyddiant i'r Carnifal yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Eirwen Williams, 1 Bryn Gro, Llanrug.



Mrs Eirwen Williams, sy'n rhoi'r gorau i weithio ar bwyllgor y Carnifal ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth.



PÊL-DROED

Cynhelir Cystadleuaeth Pêl-droed rhwng rhieni pentrefi dalgylch Ysgol Brynrefail ar gae yr Ysgol nos Wener Gorffennaf 1af, am 6. 30 p.m.

Bydd stondin cwn poeth a diod ar y cae hefyd.

Cofiwch ddod i gefnogi eich pentref neu dîm yr athrawon.

CYNGERDD LLWYDDIANNUS


Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn yr Ysgol nos Iau Mawrth 24ain. Cymerwyd rhan gan ddisgyblion yr Ysgol ac hefyd cyn-ddisgyblion — Mrs Maureen Rhys, Mrs Mary Wyn Jones a Mr Robert John Jones. Y gŵr gwadd edd Mr Emlyn Davies.

Gwnaed elw o £250. Cyflwynwyd rhodd raffl gan Mrs Helen Sutherland, ac fe'i henillwyd gan Mrs Carol Houston o Frynrefail.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at llwyddiant y noson.

Y JIGSÔ LLEOL

Arolygon Cymuned a Mapiau Bro



PECYN GWEITHREDU I GYMUNEDAU CYMRU

Yn ystod mis Mawrth, lansiwyd Ymgyrch y Jigso Lleol i gymunedau led-led Cymru gan weithgor y Comisiwn Cefn Gwlad. Pwrpas yr ymgyrch yw ceisio cael mwy o bobl i gymryd diddordeb yn eu bro, ac i chwarae rhan yn ei dyfodol.

Mae llyfryn y Jigso Lleol wedi ei gyhoeddi, a chynhyrchwyd fideo arbennig hefyd. Mae'r fideo ar gael yn y Gymraeg, ac fe'i dangoswyd eisoes ar raglen Hel Straeon ar S4C.

Mae'r Comisiwn Cefn Gwlad yn ffyddiog y bydd pobl Cymru yn gweithredu ar y gwahanol awgrymiadau sydd yn y llyfryn — a hynny er lles eu cymunedau.

Ar hyn o bryd, mae Comisiwn yn

y broses o sefydlu rhwydwaith o gysylltwyr di-dâl drwy Gymru gyfan. Bydd enw'r cysylltwr yn y fro hon yn cael ei gyhoeddi'n nes ymlaen.

Os oes unrhyw un â diddordeb yn y pecyn gwybodaeth, gellir cael copïau o Swyddfa'r Comisiwn Cefn Gwlad, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys. Mae copïau eisoes wedi eu hanfon i bob Cyngor Cymdeithas, a gobeithir y bydd y gwahanol gynghorau yn trafod — ac yn gweithredu — ar y gwahanol syniadau a gyflwynir yn y llyfryn.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss M Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

Diwedd y mis hwn (Ebrill) bydd Mrs Violet Blanchard, Y Llythyrdy yn ymddeol wedi ugain mlynedd o wasanaeth gwerthgawr i'r ardal fel siopwraig a phostfeistres. Colled fawr i'r ardal fydd colli y gwasanaeth hwylyus hwn. Diolch yn fawr i Mrs Blanchard am ei gwasanaeth parod dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol. Boed iddi hi a'i phriod Mr Robert Blanchard hir oes, ac iechyd da i fwynhau y seibiant ddaw yn sgil yr ymddeoliad.

Llongyfarchiadau i Sara Salisbury Roberts, 1 Min y Parc ar ei llwyddiant yn ennill Gradd 1 yn Arholiad Dawnsio Modern yn ddiweddar. Disgybl yn Ysgol Ddawnsio Ynys Môn yw Sara.

ac i Beverley Ann Roberts ar lwyddo yn ei arholiad piano Gradd 3.

CWMNI THEATR ERYRI

Cynhelir cyfarfod cyffredinol o Gwmni Theatr Eryri yng Ngwesty'r Goat, Llanwnda am 8 o'r gloch nos Wener Mai 6ed, 1988. Bydd cawl ar gael.

Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd y ddrama.

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2212

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)

DRAMA O HYSBYSEB

Mewn oes lle mae cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar hysbysebu, a phwyslais neilltuol ar y ffordd *slic* y maent yn cael eu cyflwyno, yn enwedig ar y teledu, cofiais am hysbysiad mewn ffurf drama fer a ymddangosodd mewn rhestr testunau Eisteddfod Gorffwysfa, Llanberis yn Ionawr 1913. Eiddo yr Henadur R.E. Jones Y.H. (Cyngor), tad y diweddar feddyg Ifan Hugh Jones, awdur "Mygyn gyda'r Meddyg". Roedd yr Henadur yn ŵr adnabyddus fel llenor a bardd, a dywed y diweddar Barch John Pritchard M.A. B.D. amdano yn ei lyfr ar Hanes Ysgol Sir Brynrefail, "Gŵr yn bryllymu gan sêl radicalaidd, Gymroaidd ac yn wastad ar dân dros hawliau'r werin."

Daeth i fyw i Lanberis fel dilledydd ar raddfa eang.

Dau gymeriad sydd yn y ddrama sef Dafydd Cil Haul a Gwilym Bryn Goleu.

GWILYM: Siwt newydd eto Dafydd?

DAFYDD: Ie, beth feddyliet ti ohoni Gwilym?

GWILYM: Wel, mae'n hawdd gwybod mai un *Ready Made* ydyw.

DAFYDD: Sut felly?

GWILYM: Y mae'n rhy llac yn y front y llewys yn rhy laes, tro dy gefn, - ydyw, y mae yn cilio yn ôl oddi wrth y gwddw, yn bochio wrth y sgwyddau, ac yn gwneud i ti edrych fel Potel *Ginger Beer*.

DAFYDD: Rwyn addef fod dy ddillad di yn well, ond faint delaist ti am y siwt yna?

GWILYM: Tri gini, a thri swllt o ddiscownt.

DAFYDD: Dyna hi, Deg swllt ar hugain roddais i am hon.

GWILYM: Yr wyt wedi cael pedair siwt ers pan gefais i hon, ac y maent yn fler a diaddurn.

DAFYDD: Ple y byddi di yn cael dy ddillad?

GWILYM: Gan R E Jones, Boderwydd wrth gwrs, fedra i ddim meddwl am gael dillad gan neb arall.

DAFYDD: Pam Gwilym?

GWILYM: Am amryw resymau Yn gyntaf (chwedl y pregethwyr yma) y mae yn gofalu am y brethynau goreu posib, y mae gennyf ddillad o'i waith ers deg, ie pymtheg mlynedd.

Yn ail y maent wedi eu gwneud nes y bydd yn bleser eu gwisgo. Y mae y *Fit a'r Style* yn berffaith. Gŵyr yr holl wledydd am hyn.

Yn drydydd y mae y gwaith yn dda a'r *trimmings* yn cyfateb i werth y brethyn.

Yn bedwerydd y mae y prisiau yn isel er bod y gwaith yn uwchraddol. Clywais foneddigion sydd yn gynefin a chael dilladau yn siopau goreu Llundain yn dweud fod y *Cut a'r Style* yn well gan

R.E. JONES BODERWYDD

am hanner y pris a delir yno.

Heblaw hyn oll ein dyletswydd yw

cefnogi gwaith cartref yn lle ein bod yn teneuo y wlad o'i phoblogaeth ac yn llanw y prif ddinasoedd. Dyna wyt ti yn ei wneud wrth brynu *Ready Made*.

DAFYDD: Dyna ddigon, does dim eisieu i ti wastraffu dy hyawdledd ar y pwnc yna, oherwydd roeddwn wedi meddwl mynd at

R.E. JONES

am fod y siwt o frethyn glas gefais wedi coch i cyn pen tri mis, ac y mae dy siwt ti o *Indigo Serge* mor glws heddiw ag oedd dair blynedd yn ôl.

GWILYM: Y mae yn dda gennyf dy fod yn sylweddoli pethau yn iawn oherwydd y mae gennyf fater pwysig heno gyda ti.

DAFYDD: Be sy'n bod Gwilym?

Mynd i gael gwraig wyt ti?

GWILYM: Wel, ie - felly y mae, ac rwyf yn gofyn i ti fel hen gyfaill ddod yn was priodas i mi, a dod gyda mi i gymeryd dillad yr un math a mi at

R.E. JONES

Gwelais siwtiau hardd ganddo yn ddiweddar at briodas Hywel ap Pwyll. *Morning Coat* laes wedi rhoddi *Flat Braid* arni, *Fancy Waistcoat* a *Striped trousers*. Y gwir amdani fachgen y mae

R.E. JONES

yn gwneud dillad harddach nag erioed.

DAFYDD: Yno y cei di bob peth arall hefyd mewn ffordd o ddillad?

GWILYM: Ie debyg iawn, bobol annwyl! Beth pe gwelet ti y *stock* sydd ganddo o *Christy Hats*, o *Scarfs*, *Fronts Collars Ties*, *Crysau*, *Drawers*, menyg a *braces*. *Waterproof coats*, *Rainproof coats* i feibion a merched a hynny yn od o resymol.

DAFYDD: Yno y cafodd Gwen ei *chostume* hefyd fachgen. Welais i erioed mo honi yn edrych cystal.

Short Jacket, *long turnovers*, *semi tight a skirt* - Wel nid yr *Robble Style* ond wirionedd roedd yn ddigon o ryfeddod.

GWILYM: Rwyn cymeryd siwt a

thop coat, gwelais y brethynau, un *Soft dark grey double breasted long turnover* fydd yr *overcoat* gymeraf, campus o frethyn a *Style* yw yr *overcoats* sydd ganddo.

DAFYDD: Deuaf yno gyda thi nos yfory. Clywais fod darpariadau

R.E. JONES BODERWYDD

ar gyfer y gaeaf eleni yn odidog a chawn bob peth wrth ein bodd am y pris rhesymol. Peth go lew yw gwybod y cawn ein gwasanaethu yn onest.

Erbyn heddiw mae'r prisiau wedi cynyddu, y *Styles* wedi newid llawer mwy, yr hysbysebu hwyrach yn fwy cystadleuol ond credaf fod neges y ddrama hon yn fwy perosol ac yn sicr wedi cyrraedd ei phwrpas o ddenu llawer mwy o gwsmeriaid i'r Henadur.

Tybed a oes rhan o'i waith yn llechu mewn rhyw gwpwrdd dillad gan rai o ardalywyr Llanberis a'r cylch?

Llew Hughes, Cwm y glo.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Ebrill 18fed, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs PAT Jones, Croesawodd Mrs MG Williams Bethel fel gwraig wadd y noson a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar hen feddyginiaethau. Diolchwyd iddi gan Mrs Jennie Angharad Roberts. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Joyce Jones a Mrs Gwyneth Williams a Diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Maxwell. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones gan Mrs Joyce Jones. Llongyfarchwyd Miss Anita Jones ar ennill tlws "Gyrrwr y Flwyddyn" yn nosbarth moduron bychain mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd dan nawdd sefydlaid y Merched Arfon a'r Heddlu ar faes pacio Ferodo bnawn Sadwrn, Ebrill 16eg a daeth Mrs Pat Jones yn ail yn nosbarth y ceir canolig.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc yn ei brofedigaeth o golli ei fam ar Ebrill 18fed. Roedd Mrs Ellen Hughes yn un o drigolion y pentref ers pan ymgartregodd ō'i diweddar

Briod Mr Hugh Hughes (gynt o Fferm y Garth) ym Mron Afon gydol blynyddoedd eu hymddeoliad. Treuliodd Mrs Hughes ei blynyddoedd olaf yng Nghartref Berwyn Lodge, Carrog ger Corwen. Dathlodd ei phenblwydd yn 95 mlwydd oed fis Awst diwethaf. Bu'r angladd cyhoedus yng Nghapel M.C. Brynrefail ddydd Gwener, Ebrill 22ain.


PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Edryn Jones, Ty'n Twll ar ddatlu eu priodas arian ar Fawrth 30ain. Dymuna'r ddau ddolch am y llu cardiau a'r anrhegion dderbyniasant ar yr achlysur.

LLONGYFARCHIADAU: Dymunwn longyfarch Mrs Moira Ellis, Gweledfa ar ennill y teitl Bar Gorau Cymru yn rhinwedd ei swydd fel rheolwraig Siop Dr Barnardo yng Nghaernarfon. Enwebwyd hi ar gyfer cystadleuaeth a drefnwyd ar Raglen Gari ar Radio Cymru. Anrhydeddwyd Mrs Ellis â phlac arbennig a gyflwynwyd iddi gan Gari Williams ddydd Mawrth, Ebrill 12fed.

OEDFA ARBENNIG: Nos Sul, Ebrill 17eg, mewn oedfa yng Nghapel M.C. Brynrefail, derbyniwyd deg o ieuenctid yn gyflawn aelodau yn yr Eglwys. Yr oedd y gwasanaeth Derbyn dan ofal y Gweinidog y Parch John Morris ac estynnwyd deheulaw cymdeithas i Caron Haf Jones, Glenda Walters, Paula Walters, Joanne Mai Evans, Maria Evans, Einir Gwyn, Catrin Gwyn, Rodney Roberts, Dewi Arfon Evans a Tudur Roberts. Llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Jennie Angharad Roberts a gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd ar derfyn y gwasanaeth gan y Gweinidog.

HELFA DRYSOR: Cynhelir yr Helfa Drysor flynyddol Nos Sadwrn 18fed o Fehefin. Bydd y car cyntaf yn cychwyn am 6 o'r gloch o'r Bont. Derbynir enwau'r rhai sydd am gymryd rhan gan Mr Elwyn Jones, 1 Trem Eilian (fôn 871459) cyn Mehefin y 4ydd.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod


Crefftwyr profiadol yn eu gosod Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Mawrth. 1. Mrs Mary Davies, Bryn Eithin; 2. Eurig Wyn, Y Frenni, 3. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon.

YR EGLWYS: Dymuna'r Rheithor y Parch Barry Thomas, ddiolch yn garedig i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd i wneud y Noson Goffi a gynhaliwyd yn ddiweddar yn un llwyddiannus dros ben.

YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, sy'n cwyno yn yr Ysbyty, a'n dymuniadau gorau iddi am wellhad buan.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: 1. A.D.R. Davies, Plas Glyn-yr-Afon; 2. R.E. Evans, Cae Ffynnon. 3. Dr Huw Roberts, Rhosbodrual.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs N Miles, Trefeddyg ar golli brawd, sef Eilian Jones.

â Roger Dafydd, Glanfa, ar golli tad. ac â Mrs Jean Jones, Llwyn Onn, ar golli mam annwyl, sef Mrs Mair Jones, 5 Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU: i Bob Eaglestone, Tremallt ar redeg yn y Ras Fawr yn Llundain dydd Sul, Ebrill 17, a chyflawni'r gamp, mewn 5 awr a 15 munud. Da iawn Bob, dalier ati!

SEFYDLIAD Y MERCHED WAUNFAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched Nos lau y 14 o Ebrill gyda Mrs Katie Wynn Jones yr Is-lywydd yn y gadair. Croesawodd Mr Tom Alun Roberts, Swyddog gyda British Telecom y Gŵr Gwadd. Rhoddodd Mr Roberts araith gynhwysfawr yn egluro'r gwahanol agweddau o'i waith gyda'r cwmni a'r modd mae'r gwasanaeth teleffon wedi newid dros y blynyddoedd. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol ac addysgiadol gan Mrs E Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mary B Davies, a Mrs Southworth oedd yr enillydd. Cynhelir cyfarfod mis nesaf Nos lau 5ed o Fai am 7.30 o'r gloch yn Festri Croesywaun, Waunfawr, pryd y dethlir Penblwydd Diemwnt y Sefydliad. Gwahoddwyd cyn-Lywyddion, Trysoryddion ac Ysgrifyddesau y gangen i'r cyfarfod ynghyd ac aelodau o gangenhau cyfagos, hefyd aelodau Clwb Gwyrfa'i a Merched y Wawr. Bydd cynnwyr lluniau yn bresennol yn y cyfarfod i gofnodi y gweithgareddau.

CLWB GLWYRFAI: Ar Fawrth 31

galwodd Miss Tina Keats o Gyngor Gofal yr Henoed yn y Clwb i egluro menter newydd fydd yn cychwyn yn y pentre yn ystod mis Mai. Bydd cinio yn cael ei baratoi yn y Ganolfan yn wythnosol ar ddydd llun a dydd Mercher. Dydd Mercher Ebrill 13 manteisiodd deuddeg o bensiynwyr ar y cynnig a mwynhawyd cinio ardderchog wedi ei baratoi yng nghegin y Ganolfan. Mae croeso i unrhyw rai wedi ymdded ddo i'r Ganolfan a rhoi eu henwau i Miss Keats.

Yn y cyfarfod yn dilyn y gŵr gwadd oedd Mr Williams o Frigad Dân Gwynedd a gyflwynwyd gan y Rheithor Parchedig Barry Thomas.

Soniodd Mr Williams yn gyffredinol am ei waith ond yn arbennig ar y peryglon a'r gofal ddylid gymeryd gan yr henoed yn eu cartrefi.

Diolchwyd gan Mrs Parry Williams a hefyd i Miss Owilda Williams anfonodd 'hot cross buns', i ni efo'n paned te. Anfonwyd cofion ar Miss Roberts, Glan Aber ar ôl cael llawdriniaeth ar ei llygaid, hefyd at amryw aelodau sydd yn wael. Rhoddwyd y raffl gan Mrs M.A. Owen a Mrs G Griffith, Llys Helen.

Ebrill 14 cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Clwb o dan lywyddiaeth Mrs N. Miles yn absenoldeb y Rheithor. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a hefyd rhoddwyd sefyllfa ariannol y Clwb gan yr Ysgrifyddes Mrs Idris Jones. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i gynnal cyfarfodydd y Clwb yn y drefn bresennol - sef bob bythefnos. Tâl aelodaeth i fod yn £1.50 am y tymor nesaf.

Etholwyd Mrs Ellen Jones, Eryri Wen a Mrs Mottram ar y pwyllgor. Penderfynwyd cynnal noson goffi gyda stondin gacennau a tombola nos Wener Mai 13 yn y Ganolfan.

Derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar gan unrhyw aelod o'r pwyllgor. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 28 yn y Ganolfan.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ann Thomas, Treforfan, diolch i bawb am fod more garedig tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen leol yn y Ganolfan nos lau Mawrth 24, pryd y cafwyd noson o frethyn Cartref. Croesawyd Mrs Beryl Jones, yn ôl wedi ei gwaeledd, a hefyd ei mam, Mrs Jones Evans. Da oedd clywed bod Mrs Jean Jones yn gwella hefyd. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Katie M Jones a'r enillydd oedd Mrs Cadi Jones. Ymwelodd yr aelodau â Changen Nant Gwynant nos Lun Ebrill 11. Perfformiwyd drama fer

Helynt y Mefus. Cafwyd noson ddifyr iawn a chafwyd gwledd ardderchog ar y diwedd. Diolchwyd i bawb gan Mrs Heulwen Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 28 pryd y disgwylir Mr Glyn Tomos o'r Gymdeithas Fro i sgwrsio am ei waith.

LLONGYFARCHIADAU i'r Heddwas Gruffudd Owain Thomas a'i wraig Karen, Tŷ'r Heddlu ar enedigaeth mab bach Owain Gareth, eu plentyn cyntaf. Nid oes llawer o amser ers pan ddaeth y teulu i fyw yma o Gaernarfon. Croeso cynnes i'n plith i chwi, ac yn awr i'r baban bach newydd.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



ADRAN BENTREF YR URDD: Bydd Nia Lewis yn mynd ymlaen i gystaldu ar y Ddawns Werin unigol i ferched dan 15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Drenewydd, dydd lau Mehefin 2. Dymunir pob llwyddiant iddi.

Trefnir bws i fynd i'r Eisteddfod ar ddydd lau Mehefin 2il. Pris - Oedolion £3.50. Pensiynwyr a phlant £2. Enwau ac arian i Elisabeth Jones, 17 Bryn Tirion (Llanberis 872421) erbyn dydd Gwener Mai 20fed. Croeso cynnes i bawb o'r fro.

Bydd criw o'r plant yn treulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglanllyn o Fai 13-15ed.

LLONGYFARCHIADAU: Mawrth 23ain yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ganwyd merch fach, Donna Lynn i Allison a Gwynfor, 13 Bryntirion. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu. Yn ddiweddar dathlodd Gwynfryn Williams, Trem Cyfni ei benblwydd yn 18oed. Pob bendith i ti Gwynfryn.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Gobeithio fod y prynu a'r gwerthu ar y ticedi Raffl Wynn yn mynd yn dda. Tynnir y raffl nos Wener, Mai 27ain. Gwobrau £25, £18, £10.

POB LWC: i blant y 5ed a'r 6ed sy'n sefyll arholiadau Lefel A a TGAU yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Ein dymuniadau gorau i chwi oll.

CAPEL BOSRA: Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Jeriwsalem, Nant Peris am 2.00 p.m. Thema'r plant oedd Merch Jeirus. 6.00 p.m. Cynhaliwyd Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda. Thema'r plant yn y Gymanfa hon oedd 'Y Trysor Mawr', sef y Beibl Cymraeg. Diolch i'r plant i gyd am ddysgu eu gwaith mor dda. Diolchir i Mrs Elisabeth Jones am drefnu'r bws.

CYDYMDEIMLO: Mawrth 29ain yn Ysbyty Eryri Caernarfon, bu farw Mrs Rose Jones yn 83 oed. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll. Yn frawychus o sydyn bu farw cefnder i Miss Mair Foulkes. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwithau hefyd Miss Foulkes.

YSGOL TAN Y COED: Casglwyd £71.08 tuag at achos Cymdeithas y Plant. Diolch i bawb a gyfrannodd.

CLWB YR HEULWEN: Dewiswyd Mrs Mary Davies yn ysgrifennydd i olynnu Mrs Percy Williams a wnaeth y gwaith am flynyddoedd lawer. Croesawyd Mrs M G Williams, Bethel, a chafwyd sgwrs hynod o ddifyr am Hen Feddyginiaethau. Diolchwyd iddi gan Mrs N Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs K Williams a Mrs Eluned Porter. Diolchwyd iddynt gan Mrs G Jones. Dymunwyd gwellhad buan i bawb sy'n sâl a chydymdeimlwyd â nifer o'r aelodau oedd wedi colli perthnasau yn ddiweddar. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 17.

CLWB Y MERCHED: Cynhelir y Clwb ar y 4ydd Nos Lun o'r mis o hyn ymlaen, oherwydd fod Chwsit yn y Neuadd bob nos Fawrth.

YR EISTEDDFOD BENTREF: Nos Wener, Ebrill 22ain cynhaliwyd Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys er budd yr Eisteddfod Bentref. Gwnaethpwyd elw o £153. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd yr achos a gwneud y noson yn un mor lwyddiannus. Enillwyr y raffl oedd 1. Mrs Betty Evans, Llys y Gwynt, 2. Mrs Eiriona Williams, Glyn Euron, 3. Huw Tegid, Arwel; ac enillydd y gem dimau pêl-droed oedd Mrs Nancy Jones, Meillionydd. Edrychwn ymlaen yn awr at yr Eisteddfod ar Fehefin 24ain. Bydd y rhestr testunau allan cyn bor hir.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

Rhyw fis yn ôl, fel pob blwyddyn arall, bu Cristnogion y byd yn dathlu un o'r gwyliau Cristnogol mawr, Y Pasg. Cynhaliwyd sawl gwasanaeth i gofio'r digwyddiadau rhyfeddol hynny yn Jerwsalem bron i ugain canrif yn ôl.

Gadewch i ni fynd, yng nghwmni'r pererinion a aeth o Ogledd Cymru y llynedd, i gerdded y llwybrau a gerddodd Iesu yn ystod yr Wythnos Fawr.

Dywed Luc wrthym,

"Pan ddaeth yn agos a gweld y ddinas wylodd drosti..." Luc 19:41
Ar lethrau Mynydd Yr Olewydd saif eglwys a adeiladwyd yn 1891 ar safle eglwys a godwyd gan y Croesgadwyr yn y ddeuddegfed ganrif. Dyma Eglwys Y Dominus Flevit, neu Eglwys yr Wylo, wedi ei hadeiladu ar ffurf deigrin ac wedi ei chodi, meddai Gwenallt

"Ar y fan, yn ôl traddodiad,

Yr wylodd Iesu uwchben Caersalem."

Drwy'r ffenestr gellir gweld y ddinas. O dan y ffenestr y mae allor ac arni lun o iâr yn casglu ei chywion, sy'n dwyn ar gof eiriau Iesu wrth iddo wylo dros y ddinas, "Mor aml y dymunais gasglu dy blant ynghyd, fel y mae iâr yn casglu ei chywion." Mathew 23:37

Llai na hanner canrif ar ôl y dagrau dinistriwyd y ddinas gan filwyr Titus a Hadrian.

Yr oedd Iesu wedi trefnu bod ystafell ar gael fel y gallai ef a'i ddisgyblion fywta'r Pasg. Heb fod ymhell o feddgell y Brenin Dafydd saif Cenedl ar y fan, yn ôl traddodiad, y roedd yr Oruwch ystafell. Y mae arlunwyr yr oesau wedi ceisio darlunio'r olygfa; y darlun cyfarwydd yw bwrdd hirsgwar a lliain gwyn arno, gyda lle i driarddeg eistedd wrtho. Heddiw y mae'r lle yn ddigon oeraidd a diarddurn a digroeso hefyd. Go brin, dybiwn i, mai dyna'r olygfa yn 33 O.C. Siawns bod yr olygfa'n fwy cartrefol na'r hyn a gyflwynwyd i ni gan yr artist?

Yna, meddwl am ein hymweliad â Bethania a'r oruwch ystafell y cawsom ein hunain ynddi. Dringo'r grisau cul i'r ystafell yn nhô tŷ o'r ganrif gyntaf oed Crist, heb fod ymhell o feddrod Lasarus. Craig noeth oedd muriau a nenfwd yr ystafell, a ninnau'n eistedd ar glustogau ar y llawr a'r coffi wedi ei osod ar y byrddau isel. Ie, dyna sut yr oedd hi yn Oruwch Ystafell Jerwsalem gynt.

"Yn y Swper cyntaf fe welwn y bara ar ddysgl

A'r gwin yn y cwpan

A'r Meseia yn bendithio'r ddau.

Yn y Cenedl clywsom eiriau cyfarwydd

"Cymerwch: hwn yw fy nghorff.

Hwn yw fy ngwaed.

Gwaed y cyfamod, sy'n cael ei dywallt

er mwyn llawer."

Wedi canu emyn aeth Iesu a'i ffrindiau allan i Fynydd yr Olewydd - yr olygfa nesaf yn y ddrama fawr. Daethant i le o'r enw Gethsemane. Y mae'n amlwg o ddarlenn Luc 22:39 bod Iesu'n arfer mynd yno am seibiant gweddigar. Mae'r ardd heddiw fel yr oedd pan y bu Iesu ar "A noswaith drom anesmwyth Yn chwysu yn yr ardd."

Yn yr ardd y mae wyth olewydden sydd yn ôl rhai botanyddion yn 3000 mlwydd oed. Dywed Joseffws wrthym bod milwyr Titws wedi dinistrio holl goed Jerwsalem. Mae'n debyg mai eu torri i lawr wnaeth y milwyr. Nid yw'r pren olewydd yn marw'n gyfangwbl, ond tyf canghennau newydd o'r hen. Y mae'r coed sydd yno heddiw yn wyresau i'r coed y gwyddai Iesu amdanynt.

Gerllaw y mae Eglwys yr Holl Genhedloedd: gelwir hi felly oherwydd bod 16 cenedl wedi cyfrannu tuag at ei hadeiladu. Yn yr eglwys y mae craig. Yno y penliniodd Iesu -

"Crist

yn yr ardd

wylodd ddagrau.

"O Dad, os ewyllysi..."

ei weddi ddwys."

Yng nghysgod yr eglwys clywyd geiriau William Lewis, Llangloffan yn cael eu canu

"Cof am y llu o filwyr

A'u gwawffyn yn dod"

"Cof am yr wyneb siriol

Y poerwyd arno'n wir;

Cof am y cefen gwerthfawr

Lle'r arddwyd cwysau hir."

Yn y distawrwydd llethol bron y gallech glywed llais Iesu'n dweud wrth y milwyr

"Gadewch i'r rhain fynd ymaith,

Cymerwch Fi'n eu lle."

Yn dilyn gwelwyd yr achos Llys



"Pan ddaeth yn agos a gweld y ddinas, wylodd drosti."

cyflymaf a mwyaf ffals erioed. Mewn ychydig oriau wedi ei arestio ymddangosodd Iesu gerbron yr archoffeiriad, y Sanhedrin, Peilat, Herod ac eilwaith Peilat. Rai troedfeddi islaw strydoedd presennol Jerwsalem y mae Gabbatha. Yma y cyflwynodd Peilat Iesu i'r Iddewon gyda'r geiriau "Dyma eich brenin".

"Gwaeddasant hwythau, 'Ymaith ag ef, ymaith ag ef, croehoelia ef.'" Ioan 19:15.



Yma y cyflwynodd Peilat Iesu i'r Iddewon gyda'r geiriau, "Wele eich brenin."

Ar un o gerrig y Palmant y mae olion gêm a chwaraewyd gan filwyr

Rhufeinig tra'n disgwyl am orchwyl. Gêm y brenin oedd yr enw arni. Yn arferol brenin dychmygol fyddai ganddynt ond y tro hwn roedd ganddynt Frenin go iawn.

"Aethant ar eu gliniau o'i flaen a'i watwar: Henffych well, Frenin yr Iddewon."

"Ac wedi iddynt ei watwar, tynasant y clogyn oddi amdano a'i wisgo ef â'i ddillad ei hun, a mynd ag ef ymaith i'w groeshoelio."

Cychwynodd Iesu ar y daith gan gario'r groes drom. Arweiniwyd ef ar hyd y strydoedd culion gyda'r dyrfa swnllyd, afreolus yn dystion, i gyferriad Golgotha, Lle Penglog. Ychydig i'r gogledd o Borth Damascus saif bryn creigiog. Pan ar ymweliad â Jerwsalem yn 1883 sylwodd y Cadfridog Charles Gordon ar y bryn gan ei fod yn ei atgoffa o benglog dynol. Awgrymodd mai'r bryn hwnnw oedd Golgotha'r Croeshoeliad.

Dywed Ioan wrthym (19:38-42)

"Yn y fan lle croesholeiwyd ef, yr oedd gardd, ac yn yr ardd yr oedd bedd newydd ... rhoesant Iesu i orwedd ynddo."

Ychydig lathenni i ffwrdd darganfuwyd gardd ac yn rhyfedd yn yr ardd honno yr oedd bedd wedi ei naddu yn y graig. Gan fod y bedd yn dyddio o'r ganrif gyntaf Oed Crist cryfhawyd y ddamcaniaeth mai yma yn wir yr oedd Golgotha'r Beibl. Ers blyneddodd bellach gwelir pererinion yn syllu ar y bryn 'tu fas i fur y dref."

"Lle'r hoeliwyd Iesu annwyl gynt O'i fodd i'n dwyn i'r nef.

Bu farw er mwyn maddau bai, A'n gwneud bob un yn dda; I ni o'r diwedd gael y nef, Trwy'r gwaed a'n llwyr lanha."

Dydd Paratoad i'r Iddewon ydoedd ac yr oedd peth brys ynglŷn â symud y cyrff oddi ar y croesbrennau. Gan fod y bedd yn agos rhoesant Iesu i orwedd ynddo.

Ble bynnag y byddwch y Pasg hwn, beth bynnag fyddwch yn ei wneud arhoswch funud a myfyriwch uwchben geiriau John Elias o Fôn "Ai am fy meiau i

Ddiodeffodd Iesu mawr, Pan ddaeth yng ngrym ei gariad Ef O entrych nef i lawr."

(Bydd yr erthygl nesaf, yr olaf o'r gyfres, yn ein hatgoffa nad y bedd oedd diwedd y stori.)

Trefor Lewis

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CARPEDI
GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID
PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Y GWANWYN: Eleni fe ddaeth Gwyliau'r Pasg yn gymharol gynnar yn y flwyddyn, ac fe ddechreuodd y gwyliau yn digon oer a gwlyb. Prin y gellid dweud bod y tymor wedi cael cyfle i gynhesu, gyda'r oerfelgarwch gaeaf yn gysgu iawn i ymadael â ni. Serch hynny ni allwn ddweud i ni gael gaeaf eithriadol galed chwaith. Bron na allwn ddweud na chawsom rew o gwbl er i ni gredu bod hwnnw yn llesol i bridd y gerddi. Gyda'r hinsawdd dyner fe geid hefyd beth gwlybanaeth, a hynny fe ddichon yn achosi fflw ac afiechydon eraill sy'n gysylltiedig a'r tymor hwn o'r flwyddyn.

Mewn byr amser fe fyddwn yn clustfeinio i glywed deu nod nodweddiadol y gwcw - hyn yn cyhoeddi bod y gwanwyn wedi dod o'r diwedd a phob rhagolwg am hindda haf. Fe rydd ein beridd gryn sylw i ymweliadau tymhorol y gôg i'n tir, ac mae emynwyr ein cenedl wedi canu'n fedrus iawn am arwyddion amlwg y tymhorau.

EGLWYS ST. MAIR: Yr Eglwys yng Nghymru sy'n canolbwyntio'n fwyaf arbennig ar y gwyliau eglwysig ac fe gawn Mr Glyn Thomas yn cymell plant yr ardwl i orymdeithio a chario croes i bwysleisio neges arbennig croes Crist a hynny mewn dull gweladwy. Fe fu Litani a Myfyrdod Boreol o dan arweiniad y Parchg. Ganon Gilbert Wright yn Eglwys St. Mair, ac fe gynhaliwyd gwasanaeth yno am 3 o'r gloch hwn hefyd ar ddydd Gwener y Groglith i roddi pwrpas arbennig i'r gorymdeithio.

GŴYL BREGETHU: Sul y Pasg yw Sul Gŵyl Bregethu 'Cefn y Waun' (M.C., Deiniolen a'r cennad a sicrhawyd ar gyfer yr ŵyl oedd y Parchg. Brian M. Griffith, y Bala.

OEDFA UNDEBOL: Y blynyddoedd diwethaf hyn mae'n arferiad gan Fedyddwyr y Cylch sy'n cynnwys Bedyddwyr Bethesda a Llanllechid hefyd - i ymgynnull yng Nghapel 'Penuei', Bangor lle cynhleir oedfa dan arweiniad ein gweinidog a lle ceir cyfle i ymgynnull a sgwrisio â chyfeillion o gapeli eraill y gylchdaith. Yn yr oedfa undebol hon fe ddethlir y Sacrament o Swper yr Argwlydd - yr ordinad a sefydlwyd gan y gwaredwr. Ein profiad eleni yw y dylid ail ystyried y priodoldeb o newid yr Oedfa Undebol hon i Sul nad ydyw'n ŵyl grefyddol, gan bod cynnifer yn manteisio ar y cyfle i ymweld â chyfeilliona pherthnasau mewn ardaloedd eraill. Y canlyniad oedd bod y cynulliad yn ymddangos yn denau.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnwn

ein llongyfarchiadau i Mr a Mrs David Jones, Bryn Myr ar ddathlu ohonynt eu priodas ddiemwnt ar ddydd Llun Ebrill 11eg. Fe gyplyswn â hyn ein dymuniadau da i Mrs Mary E Jones, Ty'n Fawndeg ar ddathlu ei phenblwydd yn nngar a phedwar ugain ar Ebrill 7fed. Ymgynnullodd rhai perthnasau agos i ddathlu'r amgylchiad gyda the parti. Ein gobaith yw y caiff adferiad llwyr a buan ac esmwythad i'w llygaidd.

CAPEL SARDIS: Fe ddaw'r Cymanfaedd Canu gyda'r edrych ymlaen sydd at Wyl y Sulgwyn a ninnau yn 'Sardis' yn dathlu honno â gŵyl bregethu. Cyfle arall a fydd hyn i gyfeillion gwahanol gapeli gael cyd-ymgynnull unwaith yn rhagor ac enwadau eraill yn croesawu ein darpariadau yn Sardis.

CRONFA APÊL LEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990.

Noson o hwyl a chân: Fel y rhagwelwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, llwyddiwyd i gynnal noson hynod llwyddiannus gyda phawb yn ymuno yn llawn yn yr hwyl. Diolch i bawb (rhy niferus i enwi pawb) a gyfrannodd i lwyddiant y noson ac am chwyddo coffrau yr apêl i £400 erbyn hyn. Felly o fewn llai na blwyddyn o amser rydym bron a chyrhaedd y targed o £500. Yn sicr rydych fel trigolion i'ch llongyfarch ar y modd yr ydych wedi cefngoi yr holl weithgareddau y mae'r pwyllgor wedi eu trefnu yn ystod y deng mis diwethaf.

Hwyl Haf: Y gweithgaredd nesaf ar y gweill yw cynnal 'Hwyl Haf' sef prynhawn o chwaraeon i'r teulu cyfan. Byddwn yn ei gynnal yn Allt Ddu. Eisoes rydym wedi penderfynu ar y dyddiad sef Dydd Sadwrn Gorffennaf 9fed. Felly cofiwch wneud nodyn ohono. Ar ôl yr apêl yn yr Eco mis diwethaf mae rhai ohonoch wedi cytuno i gynorthwyo Glyn Tomos gyda'r trefniadau, ac os oes rhai ohonoch sydd heb wneud hynny yn barod yna bydd yn falch o'ch cymorth. Rydym yn gobeithio rhoi mwy o fanylion i chi am y diwrnod arbennig yma yn y rhifyn mis nesaf o'r Eco.

Y Ffeinal yn Wembley: Beth sydd gan hyn i'w wneud â chodi arian i'r Apêl medde chw. Wel y gobaith yw y bydd pob un ohonoch yn mentro rhoi 20c i ddewis pa aelod o dima pêldroed Lerpwl neu Wimbledon fydd yn sgorio y Gôl gyntaf ar y diwrnod mawr yn Wembley ar y 14eg o Fai. Os byddwch yn lwcus yna bydd gwob o £3 yn eich disgwyl. Felly yn

ystod yr wythnos neu ddwy nesaf (os nad ydynt wedi bod eisoes) bydd rhai o aelodau'r Pwyllgor yn dod o gwmpas y pentref yn gofyn am eich 20c. Rydym yn ffyddiog y byddwch yn barod i ymuno yn yr hwyl a chodi arian i'r Apêl ar yr un pryd.

Yn gwell: Da yw deall bod Mrs Marian Griffiths o Bryn Sardis yn gwella ar ôl derbyn trinaeth law feddygol yn ddiweddar. Roedd Marian wedi dechrau ymarfer ar gyfer noson Hwyl a Chân gyda ni pan orfu iddi fynd i'r ysbyty. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn ymuno â ni yn yr Hwyl Haf ym mis Gorffennaf.

STAFELL SNWCER Y GANOLFAN:

Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Ebrill i drafod yr ystafell Snwcer cytunodd Mr Rennell Williams, Tan y Fron i fynd gyda'r plant i'r ganolfan bob nos Fawr i chwarae Snwcer. Mae Mr Williams ei hun wrth ei fodd yn chwarae Snwcer ac nid oes amheuaeth y bydd yn gaffaeliad mawr i'r criw ifanc. Hoffai pwyllgor y Ganolfan ddiolch i Mr Williams am wneud hyn.

DYMUNIAD Mrs Mary E. Jones, Ty'n y Fawndeg yw diolch i'r holl ffrindiau a gofiodd amdani yn amryw droeon y bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac yna ar ei phenblwydd yn 90 oed. Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd. Diolch yn fawr i chi i gyd.

BETHEL

LLONGYFARCHIADAU i ddisgyblion Mrs Glyn Griffiths yn eu llwyddiant yn eu arholiadau piano yn ddiweddar. Bu Gwenan Elis yn llwyddiannus yn yr arholiad Gradd 1, Bethan Jones yn yr arholiad Gradd 3 a Wenna Williams yn yr arholiad Gradd 4.

CYDYMDEIMLO: Ar ôl gwaeledd hir bu farw Mrs Allen, 15 Tan y Cae. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Y NEUADD GOFFA: Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Fercher Ebrill 20fed mae cael Neuadd newydd gam yn nes. Ystyriwyd tri chynllun a phenderfynwyd ystyried ymhellach cynllun gwerth £60,000 i godi neuadd ychydig yn fwy na'r un bresennol. Gobeithir y bydd grantiau i'w cael i ddechrau ar y gwaith yn ystod 1989 ond bydd yn rhaid codi £15,00 yn lleol.

Diolchwyd i Mrs Elsie Williams am ei rhodd anrhydeddus o £100 a ddaeth yn sgil ei llwyddiant mewn

cystadleuaeth wedi ei threfnu gan y Daily Post. Roedd Mrs Williams yn cael dewis elusennau lleol i dderbyn £200 gan y Daily Post. Rhoddodd £100 i'r Neuadd a £100 i Ysgol Tudweiliog.

Diolchwyd hefyd i Richard Jones am y rhoddodd ddaeth i law yn dilyn ei Ras Mini Marathon.

Yn y cyfarfod penderfynwyd hefyd anfon gair o ddiolch i Myfanwy Jones, Glan Gors, ar ôl nifer o flynyddoedd o weithredu fel ysgrienyddes y Pwyllgor. Cynhelir y cyfarfod nesaf Ynys Fercher, Mai 18fed. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL Y CYSEGR: Bu'r mis yn un prysur iawn i blant yr Ysgol Sul. Bu nifer dda yn dweud eu maes llafur a hefyd yn sefyll yr arholiad ysgrifenedig ar gyfer y Gymanfa a'r Arholiad Sirol.

MERCHED Y WAWR: Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr W.P. Williams, prifathro Ysgol Treborth. Roedd y noson dan lywyddiaeth Anne Elis a'r te yn cael ei drefnu gan Mrs Griffiths, Tre'r Gof, Alys Jones ag Anne Elis. Mrs M.G. Williams a enillodd y raffl.

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta**

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

**PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

**Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth**

**GWILYM H.
WILLIAMS**

**BRYN DAIRY
2 BRYNHAFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



**Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau**

**Merched ...
Dynion ...
Plant ...**

**I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â**

SIAN

**MAIRANNEDD
LLANRUG**

Ffôn:

Caernarfon 5366

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi**



**Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors**

**Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr**

ECO'R IFANC

GWERSYLL PENWYTHNOS

Dyma hanes y penwythnos yn Nefyn gan rai o'r merched, gwelsoch eu llun yn yr Eco mis diwethaf. Y pump oedd Ffion Lloyd Williams, Nia Griffith, Wendi Thomas, Nia Gwawr Jones ac Ellen Parry.

PENWYTHNOS YN NEFYN

Aeth pump ohonom o Ysgol Sul Capel Mawr, Llanrug am benwythnos i Nefyn ar ddechrau mis Mawrth. Roedd yn rhaid mynd â llawer o bethau efo ni, sach cysgu, welingtons, gemau, casetiau, pensiliau lliw, Beibl ac wrth gwsr dillad, dyna pan roedd ganddom gymaint o baciau. Daeth bws mini i'n nôl o flaen y capel erbyn 5.45 ac ar ôl rhoi'r paciau i gyd yn y bws, dyma gychwyn. Roeddem yn stopio wrth Garej Dinas i godi chwech o blant o Ysgol Sul Rhostryfan oedd yn dod yno efo ni.

Nid oedd yn daith hir iawn a roedd llawer o olygfeydd hardd iawn i'w gweld ar y ffordd. Wedi cyrraedd Nefyn roedd yn rhaid chwilio am y tŷ roeddem i aros yno. Doedd y gyrrwr ddim yn gwybod ble roedd y tŷ. Un waith bu bron i ni landio ar lan y môr yn Nefyn pan gymerodd y gyrrwr y tro anghywir. Wedyn gofynnodd i rywun pa ffordd i fynd, ond doedd rheini ddim yn gwybod. Y munud wedyn gwelsom rhywun yn neidio i fyny ac i lawr a chodi llaw arnom yn y tŷ dros y ffordd. Roeddem wedi cyrraedd Pendorlan. Tŷ gweddol fawr oedd Pendorlan gyda amryw o ystafelloedd. Ystafelloedd gwely cysurus, ystafell fwyta a lolfa fawr. Roedd y gegin yn fach iawn, ond roedd digon o le i'r pump ohonom i olchi'r llestri! Buom yn helpu i wneud y bwyd sawl tro, ac am mai ni oedd y plant hynaf yno, ni oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith tŷ.

Wedi cyrraedd nos Wener a chael swper cawsom anerchiad diddorol gan y Parchedig Robert Roberts, Morfa Nefyn. Darlennodd stori Daniel o'r Beibl newydd ac fe gawsom weld llun fideo o'r stori hefyd. Darlennodd Wendi a fi stori Nebuchodonosor gyda Delyth Oswy. Yn ystod y penwythnos fe gawsom amryw o drafodaethau fel hyn a roedd gweithgareddau eraill wedi eu trefnu ar ein cyfer, ac roeddem wedi mwynhau'r cyfan.

Ystafell i bedwar yn yr atig oedd ar ein cyfer, ond gan fod pump ohonom rhoddwyd matres ychwanegol ar y llawr, er mwyn i ni i gyd gael bod yn yr un ystafell. Roedd hyn yn hwyl iawn, er ei bod braidd yn hwyr arnom yn mynd i

gysgu y noson honno.

Nos Sadwrn cawsom lawer o hwyl wrth chwarae "Dyddiad Dall" fersiwn Gymraeg o'r gêm Blind Date. Roedd Delyth Oswy wedi trefnu'r gêm i ni yn Gymraeg. Y canlyniad oedd bod un yn cael mynd am dro i'r traeth efo un o'r bechgyn, un arall yn cael paned a sgwrs, a fi, druan bach yn gorfod gwneud y tân y bore wedyn.

Trefnwyd y cwrs gan Delyth Oswy o'r Cyngror Ysgolion Sul, ac yno i helpu oedd Siwsan a Gethin.

Roeddynt i gyd yn helpu i ni gael penwythnos hapus, a rwan mae ganddom ffrindiau newydd.

Ar y pŵawn Sadwrn aethom ar daith yn y bws mini i Uwchmynydd Aberdaron. Gwelsom Ynys Enlli ar y gorwel, roedd yr olygfa yn wych.

Wedi bod yn Aberdaron aethom i Bwllheli, ac yn anffodus roedd un o'r genethod yn sâl a bu raid stopio'r bws am ychydig. Gan ein bod ni o'n pump yn hŷn na'r plant arall, cawsom fynd o gwmpas Pwllheli ar ben ein hunain, ac fe wariodd pawb eu harian poced i gyd. Wedyn mynd yn ôl i Pendorlan, cael te, chwarae gemau gwirion a chael llawer o hwyl.

Rydym wedi gwneud amryw o ffrindiau newydd o Rhostryfan. Mae'n debyg y gwelwn nhw eto, a byddwn yn cofio mai plant yr Ysgol Sul ydynt, fel ni.

Bore Sul aethom am dro i lan y môr, ond gan fod y llanw i mewn roedd yn anodd cerdded, gan mai rhan bach cul o'r traeth oedd yn sych.

Roedd yr hogiau wedi dwad a phêldroed efo nhw a bu bron iddi gael ei chicio i'r môf. Ond tua hanner ffordd ar hyd y traeth roedd y tywod yn sych ac yn esmwyth braf ac felly fe gawsom chwarae pêl. Roedd yn rhaid troi'n ôl tua hanner awr wedi deg er mwyn i ni gael paratoi at y gwasanaeth.

Aethom yn ôl ar hyd ffordd arall, uwchben y traeth lle roedd golygfa hyfryd i'w gweld. Daeth y Gweinidog oedd yn byw yn agos, atom i Pendorlan, ar ôl iddo fod mewn gwasanaeth arall.

Roedd wedi dod a'i ddau blentyn gydag ef, bachgen a merch. Roedd y ferch fach newydd gael ei phenbwlydd y diwrnod cynt.

Yn y gwasanaeth roedd plant Rhosgadfan yn gwenud sgets ac yna canu y gân oeddynt wedi ei gwneud. Wedyn daeth ein tro ni i wneud ein sgets ni a chanu'r gân oeddem wedi ei hysgrifennu gyda help Siwsan, a hi hefyd oedd yn chwarae'r gitar i ni.

Cafwyd gweddi a darlenniad o'r Beibl i ddiweddu'r gwasanaeth.



Tair o ferched Llanrug a fydd yn ymddangos yn 'The Triple Net' ar Channel 4 (Lloegr) ac S4C yn ystod mis Mai a Mehefin.

SBLAT!

GWEITHDY IEUENCTID HTV

Cofio "SBLAT" y llynedd?

"Ydyn, a dyna lot o hen Sblat oedd e' hefyd!" dychmygaf yr ateb cwrtais.

Wel, os ydych chi o dan 16 ac yn meddwl y gallwch chi wneud yn well na Gweithdy Ieuenctid 1987, ysgrifennwch at y cyfeiriad isod, ac efallai y cewch chi gyfle.

Gweithdy Ieuenctid HTV

HTV, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys

CAERDYDD, CF5 6XJ. Ffôn (0222)590142

Gŵyl Fai

Prynhawn Llun, Mai 2, am 3 o'r gloch

Gemau Pêl-droed a Barbeciw

ar gae Eithin Duon

Mynediad i'r cae Oedolion 30c Plant 10c

Prynhawn o hwyl i'r teulu i gyd

Yr elw i Glwb Pêl-droed Llanrug ac Apêl Llanrug at

Eisteddfod yr Urdd 1990 Croeso i bawb



22 BRYNTIRION

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis

870145

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd

* Teithiau Lleol a
Thramor

* Gwaith Contract

* Telerau arbennig i
bensïnwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau

Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

CORNEL Y PLANT IAU

LLIWIWCH Y LLUN YN OFALUS

(Gyda llaw tractor coch sy' gan y ffermwr yma, a chi bach du a gwyn yw Smot y ci)



'PENBLWYDD HAPUS' i Syr Wynff a Plwsman yn 15 oed!!!



SYR WYNFF AP CONCORD Y BOS
A PLWMSAN Y TWMFFAT TWP.

Y GOG

Pwy sy' wedi clywed y Gog eleni? Ydych chi? Os ydych chi wedi ei chlywed yn barod, rhwch wybod i ni. Cofiwch nodi'r dyddiad a'r lleoliad ac anfonwch at 'Eco'r Ifanc'. Fe gawn weld pwy yng nghylch 'Yr Eco' yw'r cyntaf i glywed y Gwew.

Diolch yn fawr i Iwan Rhys Jones (8 oed) o Rhiwafon, 37 Ffordd yr Orsaf, Talysarn a Richard Henry Jones (6 oed) 94, Pentre Helen, Deiniolen am anfon y cyw Pasg wedi ei liwio mor ofalus. Da iawn chi hogia. Ydych chi'n cofio i Lyndsey Vaughan ofyn am eich help y mis diwetha. Roedd hi angen un linell i gwblhau'r bennill am yr eliffant pinc. Wel, dyma'r linell fuddugol!!! Siwan Eurgain (9 oed) o Lanrug pia' hi:-

Yr Eliffant Pinc

Eliffant pinc yn gwneud triciau di-ri,
Pêl yn yr awyr a'i drwnc fyny fry,
Sefyll ar un goes ar ddrwm mawr tri lliw
Neidio i'r awyr heb smic, siw na miw!

COFIWCH ANFON EICH STORIAU, JÔCS, A'CH LLUNIAU I ECO'R IFANC, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.

Hwyl tan y mis nesa.

Dyma ddarn o farddoniaeth i chi ei darllen. Mae'n sôn am fis Mai.

Mai

Mae aur ar lwyni'r eithin,
Ac arian ar y drain;
A'r coed fel gorseddogion
O dan eu mentyll cain.
A lle bu'r gaeaf unwaith
A thwrf drycinoedd blin,
Mae popeth yn adfywio
Ond mynwent a phren crin.

Daeth blodau'n ôl i'r gwrychoedd,
A grug i'r bannau llwm;
A deunod clir y gwcw
Sy'n seinio yn y cwm.
Mae'r adar bach bob bore
A'u lleisiau per, di-drai
Yn moli yr arlunydd
A greodd harddwch Mai.

J.R. Jones

PÔS MIS MAI

Y GOG

1. O ba wlad y daw'r Gwew yma i Gymru?
2. Y gwryw neu'r fenyw sy'n canu'r 'gwew' adnabyddus?
3. Pa liw yw'r Gog gwrywaidd?
4. Tua pa faint yw'r Gog - 24 cm, 32 cm, 45 cm (10 modfedd, 13 neu 18 modfedd?)
5. Ydy'r Gog yn adeiladu nyth?
6. Sawl wy sy'n cael ei ddodwy ym mhob nyth?
7. Pwy sy'n magu'r cyw wedi iddo ddeor?
8. Beth sy'n digwydd i'r wyau a'r cywion eraill sydd yn y nyth?
9. Beth mae'r Gog yn ei fwyta?
10. Pryd mae'r Gog yn peidio a chanu?

ATEBION

1. Yr Affric 2. Gwryw 3. Lliwddlas 4. 32 cm (13 modfedd) 5. Mae ydy 6. Un 7. Y rhieni maeth 8. Maent yn cael eu gwithio o'r nyth 9. Pry genwair, pry cop, neidr gantroed a lindys blewog 10. Diwedd Mehefin

Ffitian Ffation gan Falyri Jenkins.
Gwasg y Lolfa, Talybont. Pris : £2.95

Llyfr newydd sbon danlli grai a dylai pob aelwyd lle mae plant bach archebu'r llyfr yn syth bin, ac mae i'r dim ar gyfer yr Ysgolion Meithrin a dosbarthiadau'r babanod yn ein hysgolion, ac ar gyfer colegau hyfforddi athrawon.

Mae teitl y llyfr gwreiddiol yma yn codi o'r gân gyntaf yn y llyfr:

'Ffitian, ffation. Ust! Pwy sy'n stelcian,
Ac yn criplan drwy y glaswellt tal?
Ffitian, ffation, mae rhywbeth yn sbecian,
Anghenfil mawr, peryglus am dy ddal!'

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CYFARFOD CYHOEDDUS: Rhwy drigain o'r pentrefwyr oedd yn bresennol i dderbyn croeso'r Cadeirydd Mr Gwyn Parri i'r Cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, nos Fercher 13 Ebrill. Estynnwyd croeso arbennig gan y Cadeirydd i Mrs Eira Hughes, Dirprwy Brif Swyddog Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Arfon, ynghyd â dau swyddog arall o'i hadran oedd yn bresennol i drafod agweddau o'r gwelliannau diweddar a gyflawnwyd i amgylchedd y pentref dan gynllun y Cyngor Bwrdeistref.

Amlinellwyd y gwelliannau rheini gan Mrs Hughes, gan gyfeirio at resymau arbennig pam na fu'n bosibl, ar hyn o bryd, i baratoi maes pêl droed i'r ifainc, a sut y gwariwyd yr arian oedd wedi'i glustnodi ar gyfer hynny ar brosiectau eraill er mantais i'r pentrefwyr. Gobeithiai ddenu cyfraniadau pellach oddi wrth Asiantau Cyhoeddus, megis Bwrdd Datblygu Cymru er gwireddu rhagor o welliannau yn y pentref. Cytunodd bod angen sylw brys i waliau terfyn rhai stadau tai y Cyngor yn Neiniolen, ac amcangyfrifwyd y byddai'r gwelliannau rheini yn costio tua £80,000. Cafwyd sicrwydd gan Mrs Hughes y byddai Cyngor Arfon yn parhau i gadw diddordeb effro yn yr amgylchiadau yn Neiniolen, ac yn gwneud popeth posibl i ennill cefnogaeth er dwyn i ben yr argymhellion sydd gan ei hadran at wella ymhellach amgylchedd y pentref.

Diolchwyd yn wresog i Mrs Hughes a'i chyd-swyddogion am neilltuo amser i ddod i'r cyfarfod, ac am eu diddordeb parhaol yn ein pentref. Cafwyd amryw gyfarchiad i werthfawrogi'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ein pentref gan Gyngor Arfon yn ystod y misoedd diweddar, a thanlinellwyd fwy nac unwaith, ein cyfrifoldeb fel pentrefwyr i ddiogelu a pharchu'r gwelliannau rheini. Wedi i swyddogion Cyngor Arfon ymneilltuo, aed ymlaen i ddarllen a chadarnhau cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 1987.

Bu codi Canolfan Aml-Bwrpas yn destun trafod yn Neiniolen ers rhai blynedd oedd bellach, ac yng Nghyfarfod 1987 roedd gwahoddiad wedi'i estyn i Bwyllgor Rheoli Canolfan bresennol y pentref i ymholi am gostau addasu Capel Disgwylfa i'r pwrpas hwnnw. Cafwyd y cefndir i'r anawsterau yn hynny o beth a brofwyd gan y Pwyllgor Rheoli, mewn adroddiad gan ei Gadeirydd, Mr Glyn Tomos. Bu'r

Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod swyddog perthnasol y Cyngor Sir, a chafwyd crynodeb gan Mr Tomos o'r cymorthdalaidau y gellid eu disgwyl tuag at godi Canolfan o'r fath. Wrth gloi ei sylwadau cyhoeddodd Mr. Tomos na fyddai'r Pwyllgor Rheoli yn ymgymryd ymhellach â chodi Canolfan newydd, gan y teimlent mai eu hunig swyddogaeth oedd rhedeg y Ganolfan Bresennol. Bu rhydd ymddiddan pellach ar y posibiliafau, ac o fethu cael llwybr clir, penderfynwyd gadael ar y bwrdd y priodoldeb o godi Canolfan Aml-Bwrpas i'r pentref. Gwahoddwyd y Panel Pentref i barhau mewn swydd am gyfnod pellach, a byddant yn cyfarfod ar fyrder i drafod, ymhlith pethau eraill, cynnal Cystadleuaeth Stryd Daclusaf am 1988, gyda Tharian Crefft Elidir i'r stryd fuddugol.

CYNGOR EGLWYSI: Cynhelir cyfarfod arbennig yn Festri Disgwylfa, am saith o'r gloch, nos Lun, 9 Mai, i lansio apêl at Wythnos Cymorth Cristnogol 1988. Bydd casglyddion yn galw yn y cartrefi yn ystod y cyfnod 16 i 21 Mai, ac mae'r Cyngor yn hyderus y derbynir y gefnogaeth arferol i'r casgliad. Croeso cynnes i bawb i Festri Disgwylfa, i wrando apêl y Parchg. Dewi Lewis, Trefnydd Gogledd Cymru, Cymorth Cristnogol.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y drydydd wobwr yng nghystadleuaeth Cynr Terfynol Pontins, Southport, yr unig fand trwy Wynedd i fynd trwydd i'r prawf terfynol fydd yn cael ei gynnal fis Hydref yn Pontins Prestatyn. Yr oedd pedwar ar hugain o fandiau yn y gystadleuaeth. Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am Fis Ebrill oedd: 1. £20 Mrs Jennie Roberts, Pentre Helen; 2. £15 Mr Elfed Jones D.M.M. dan ofal Caradog; 3. £10 Mr Dilwyn Jones, Machpela House, Deiniolen.

CYDYMDEIMLAD: Wedi dioddef ohoni gystudd blin am rai misoedd bu farw Mrs Margaret Mary Morris, 30 Rhydfadog, yn Ysbyty Bryn Seiont ar 18ed o Fawrth. Treuliodd Mrs Morris ei bywyd priodasol yn 9 Rhes Marian, gan symud i Rhydfadog rhyw ddwy flynedd yn ôl. Roedd yn aelod tawel a ffyddlon yn Eglwys Ebeneser, a'i Gweinidog, Y Parchg. Trefor Lewis fu'n arwain y gwasanaeth yn y capel yno, ac yn Amlogfa Bae Colwyn ar ddydd ei hangladd ar 23 Mawrth. Dymuna'r teulu ddiolch i'w Gweinidog, a Staff Uned MacMillan am eu gwarchod tyner, ac am bob mynegiant o gydymdeimlad oddi wrth gymdogion a ffrindiau.

MERCHED Y WAWR: Llywyddwyd y Cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis. Darllenwyd llythyr mewn ateb ynglŷn â cancer y fron. Cydymdeimlwyd â Mrs Peri Evans ar golli ei chwaer. Anfonwyd cofion ar Miss Kathleen Jones. Cyflwynodd y Llywydd y gŵr gwadd Mr Arwel Jones fel un o Hogiau'r Wyddfa. Dewisodd Mr Jones fel ei destun 'Pe meddwn i'r ddawn.' Soniodd am ei blentyndod yn Llanberis a dylanwad ei gartref a'i rieni, y Capel a'r cyfarfodydd cystadleuol. Hefyd am y plant talentog ddod a heddiw. Ar dâp cawsom ddrama'r pulpud, Christmas Evans, unigolion a deuawdau. Cawsom noson ddifyr a hwyliog dros ben yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Mrs Megan Morris a'r Llywydd. Enillydd y wobwr oedd Mrs Peri Evans. Cawsom noson dda i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Tŷ Golchi. Ebrill 18 cawn sgwrs gan y Samariaid.

PLAID CYMRU: Clwb 100 Mis Mawrth: £10 Mrs Iona Richards, 5 Tai Caradog; £8.50 Mrs Betty Hughes, Cryngae.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn neuadd yr Ysgol ar Ebrill 12fed dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol gan y llywydd a'r cofnodion gan yr ysgrifennydd. Y gŵr gwadd oedd Mr Eames a chawsom noson ddifyr yn dangos sut i wneud posteri. Diolchwyd iddo gan Mrs Marian Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Rita P Jones a Mrs Marian Williams ac enillwyd y raffl gan Miss Betty Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 3ydd pryd y disgwylir Mrs Maud Williams Caernarfon y V.C.O.

LLONGYFARCHIADAU i Gavin Saynor ar ddod yn Bencampwr Cymru mewn Cystadleuaeth Tidliwincs yn Aberystwyth ddydd Sadwrn Ebrill 16. Mae Gavin hefyd yn aelod o'r Seindorf, a daeth yn gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Mae nawr yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Drenwydd ym Mis Mai. Pob lwc iti Gavin.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur geni eu mab, Ynyr Gwyn, brawd i Heledd.

DIOLCH: Dymuna Mr Brymer Parry ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddagnoswyd tuag ato efa'r teulu ar achlysur colli ei fam yn ddiweddar.

STRYD DACLUSAF: Mewn ymateb i waith Panel Pentref Deiniolen, cynhelir cystadleuaeth Stryd Daclusaf am y tro cyntaf eleni. Bydd y beirniaid yn dod o gwmpas Deiniolen a Chlwt-y-bont rhwng rŵan a diwrnod y carnifal, pryd y rhoddir gwobr i'r enillydd.

Tlws Crefft Elidir sydd i'w hennill.

Dylai'r sawl sy'n fodlon bod yn 'gynrychiolydd stryd' a'r rheini sydd eisiau mwy o wybodaeth gysylltu â Mr Gwilym Williams, Crefft Elidir.

Ymddeoliad Miss Megan Roberts Fferm y Gelli, Llanddeiniolen

Mor hyfryd ydyw canu
A'r Gwanwyn sydd gerllaw
A'r adar bach yn tiwnio
Er gwaetha'r gwynt a glaw
A chanu welir Megan
O'r Gelli wrth ei gwaith
Rol gwasanaethu llawer
I lawer ar eu taith.

Mor hawdd fuasai iddi
Gael Doctor iddi'n ŵr
A mynd ar long yn hapus
A gwyliau dros y dŵr.
Ond cadwodd hi y Records
Yn' Sbyty Dewi Sant
Yn daclus mewn compiwtr
Yn berffaith cant y cant.

Dros bedwar deg a phedwar
O flwyddi yn ei gwaith
A dechrau'n hogan ifanc
A hynny'n un deg saith.
Fe fyddant yn ei cholli
Am un fu'n werth ei chael
A phawb fydd yn dymuno
Hir ddedydd ddyddiau hael.

Bydd Les a Rhiannon Hithau
A Robin debyg iawn
Yn falch o'i gweled adref
Ac aros amser llawn
Bydd paratoi'r tŷ gwydr
A chael planhigion lu
A hi fydd yn gofalu
Am flodau ger y tŷ.
Ffarwel i'r hen gompwtr
A'r biros lawer iawn
Caiff godi pan y myno
Y bore neu y pnawn
Wel llawer blwyddi eto
Ddymunwn ar y daith
A Dewi Sant ym Mangor
Yn ddiolchgar am eich gwaith.
Di-enw.

GŴYL WANWYN MERCHED Y WAWR - RHANBARTH ARFON: Dowch i'r Wyl Ddrama yn ysgol Brynrefail Mai 27 am 7.30 p.m. Amser yn ôl bellach bu cystadleuaeth ysgrifennu drama byrion, a'r ddwy a wobrwyrwyd oedd 'Gwahanu' a gynhyrchir gan Gwen Pritchard Jones o gangen Dinas, a 'l'w gadw yn y teulu' a gynhyrchir gan Mat Pritchard i gangen Caernarfon. Aelodau o wahanol gangennau Arfon yw'r actorion, trefnwyr y llwyfan a' colurwyr. Yn yr ysbaid rhwng y ddau berfformiad fe fydd siawns am sgwrs a phaned. Dowch a'ch ffrindiau.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, claciau, calendrau, raciau llythyrac ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg
Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Y diweddar J.R. Morris Bethel gasglodd yr hen Gerddi canlynol. Mawrth 1959.

Pan oeddym yn blant

Dafydd
Pan oeddwn yn fachgen
Wynebgoch a llawen
Ynghanol pob llawnder ar aelwyd fy
nhad
Y byd oedd yn burach
A llawer gonestach
Mewn crefydd a masnach
Dros wyneb y wlad.

Gwenno
Bûm innau'n enethig
Ac O! mae hi'n chwithig,
Does dim byd yn debyg yn awr
megis cynt
Mae'r bechgyn yn ffolach
A'r merched yn wylltach
Yn gwibio'n gyflymach a'u
pennau'n y Gwynt.

Y Ddau
Mae'r amser dedwyddaf siriolaf y
sant
Ho, ho wedi pasio pan oeddym yn
blant.

Dafydd
Mae sôn am fradwriaeth
A phob afreolaeth,
Yn duo ein talaeth o fynydd i fôr
A lladron a meddwon
A gwaedlyd lofruddion
Sy'n dychryn i galon canlynwyr yr
lôr.

Gwenno
Mae'r llanciau'n fwy penrhydd
A'r merched trwy'i gilydd
Yn siarad iaith newydd sy'n gwilydd
i'n gwlad
Ac nid oedd dim hanes
Am ffasiwn a rhodres
Pan oeddwn i'n llances ar aelwyd fy
nhad.

Y Ddau
Mae'r amser dedwyddaf siriolaf i
sant
Ho, ho, wedi pasio pan oeddym yn
blant.

Dafydd
Ers talwm roedd cewri
Yn britho'n llechweddi
Ond heddiw eiddilod sy'n hidlo ein
llawr;
A'r ymborth yn rhatach
A'r trethi'n ysgafnach,
A'r bechgyn yn gryfach na'r dynion
sy'n awr.

Gwenno
Waeth tewi 'rwy'n gweled
Mae'r byd wedi myned
A'i wyneb i waered i ganlyn y
gwynt.

Dafydd
Wel aed ffordd y mynno
Gad iddo fo, Gwenno
Pan dderfydd ei bendro daw eto fel
cynt.

Y ddau
Mae'r amser dedwyddaf siriolaf i
sant
Ho, ho, wedi pasio pan oeddym yn
blant.

Glan Padarn

Hynodrwydd yn Sir Fôn

Tybed a glywsoch chi sôn am y dyn
hynod canlynol?

Gwelwyd yr hanes yn Eurgrawn
Môn sef y cylchgrawn na ddaeth
ond deunaw rhifyn ohono o'r Wasg
yn 1925-1926. Cafwyd yr hanes o
ryw hen ysgrif wedi ei hysgrifennu
yn oes y Frenhines Elizabeth y
gyntaf. Y mae'r enwau yn dra
diddorol. Dyma ychydig o'r hanes
am yr hen ŵr a fu byw yn Nhregauan
Môn. Daeth allan o Ysgrif ym
meddiant Mr Williwm Owen o
Ddronwy Llanfachraeth, Môn.

"Bu farw gŵr a elwid William
Dafydd ap Howel ap Iorwerth yn
gant a phum mlwydd oed, yr hwn a
briododd dair gwraig.

Y gyntaf a elwid Elin merch
William; ohoni y cenhedlodd 22ain
o blant. Ei ail wraig a elwid Catherin
ferch Richard a chael deg o blant
ohoni. A'i drydydd wraig a elwid
Elinor ferch William a chenhedlu
pedwar o blant. Bu ganddo hefyd
ddwar ordderchwraig; y gyntaf oedd
Janet ferch William; cafodd ddau o
blant o hon.

Enw yr ail ordderch oedd LLeicu
Lloyd a chafodd bump o blant
ohonni. Rhifedi ei holl blant oedd
43. Yr oedd ei hiliogaeth, plant ei
blant etc. yn rhifo dros dri chant.

Dyn bychan ydoedd yn byw ar
hwsmonaeth a'i hobi oedd pysgota a
hela.

Cath
Cath fraith, cath ddiffaith, cath ddu
- cath lygod
Cath Loeger a Chymru
Cath, Cath, Cath, ei bath ni bu
Cath y fall, cei wyth felly.

Gwilym Callestr.

Priodi
Triw euthum dros y trothwy - yn
fuan

I fywyd ofnadwy:
Af bob cam at mam, a mwy
Af adref hefo'r fodrwy.

(Pwy?)

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

YSGOL SIR LLANBERIS 1921 DOSBARTH 3A (YSGOL BRYNREFAIL)



Rhes gefn o'r chwith i'r dde: Morfudd Jones, Katie Ffoulkes, Megan
Lloyd, Annie May Jones, Mattie Roberts.

Rhes ganol o'r chwith i'r dde: Lizzie Christina Jones, ? Williams, Laura
Jones, Olwen Roberts, Katie Roberts, Ann Williams, Irene B Jones,
Katie Roberts, Megan Humphreys.

Rhes flaen chwith i'r dde: Maggie Roberts, Sarah Thomas, Miss
Pritchard-Jones, Bessie Jones, Gwyneth Roberts.

Eistedd blaen chwith i'r dde: Olwen Pritchard, Cyril(?) Jones, Glynne
Parry, Dorothy Hughes.

Ceir nodor ar gefn y llun hefyd yn dweud fod Sarah Dilys Jones yn
absennol pan dynnwyd y llun.

Llun gan Mrs W A Jones, Dalar Deg, Llanrug.

HOGIAU PENISARWAUN

Mae cwmwl dros y pentre, mae'r hogiau'n mynd i ffwrdd,
Ni wyddom ar y ddaear pryd gawn ni eto gwrdd;
Mae'r rhyfel wedi torri, rhaid tynnu'r cledd o'r wain,
Ond nid oes neb mor barod a hogia Penisarwaen.


Mae rhai am fod yn filwyr i ymladd dros eu gwlad,
Mi fydd y B.E.F. yn falch o'u gweld ar faes y gad.
Bydd yno dynnu planiau i falu'r Siegfried line
Pan glybu Gort a Gamelin am hogia Penisarwaen.

Mae rhai am fod yn forwyr i geisio gwneud eu rhan,
O na buasai Churchill ar stemar Isle of Man;
Ond nid oes un torpedd, na'r un magnetic mine
Yn mynd i dorri calon hen hogia Penisarwaen.

Ble bynnag bydd yr hogia, ar fôr neu ar y tir,
Rwy'n sicr bydd y Germans yn cadw ddigon clir.
Bydd llawer un yn jealous, a siwr o luchio wipes,
Pan welant yr hen hogia yn fedals ac yn stripes.
A phan fo'r rhyfel drosodd a Germani yn fflat,
Bydd Hitler a'r hen Goering a Goebels digon swat.
Ymhen blynnyddoedd eto tra ni bydd sôn am rhain,
Bydd pawb yn sôn ym mhobman am hogia Penisarwaen.

Anfonwyd y penillion gan Gwilym Pritchard, Morfa Benllech. Nid yw'n
gwybod pwy yw'r awdur. Oes rhywun o'r darllenwyr all ei helpu?

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

CÔR CHWAREL DINORWIG 1948-49



Anfonwyd y llun hwn i'r Eco gan Mr R Lloyd, 14 Dôl Elidir, Llanberis. Ef yw'r chweched o'r dde yn y rhes olaf. Faint o aelodau'r côr sy'n dal yn fyw tybed? Os gwyddoch pwy oedd yr aelodau efallai yr hoffech anfon atom.

SCOUTS A'R CUBS: BINGO: Cafwyd Noson Bingo lwyddiannus yng Ngwesty Gwynedd mis diwethaf tuag at y Scouts a'r Cubs, pryd y gwnaed elw o £137.08. Dymuna Mick Atkin a Pat Turner ddiolch o galon i bawb am y rhoddion tuag at y raffl a'r gwobrau ac i bawb am eu cyfraniad a wnaeth y noson yn un mor llwyddiannus. Diolch yn fawr.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 31 dan arweiniad Mrs Hannah Jones a rhoddodd y llywydd groeso i chwaer Mrs Jean Elis.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Pleser oedd cael croesawu Mrs Eluned M Jones yn ôl i'n plith. Roeddem yn falch o glywed fod Mrs Lizzie Jones a Mrs A B Jones wedi dychwelyd o'r ysbyty ac yr ydym yn dymuno adferiad buan i'r ddwy aelod ffyddlon yma. Gan fod ein gwraig wadd ddim yn gallu dod, trefnodd y llywydd gwis, roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolchwyd i'r llywydd ac i'r gwestwagedd gan Mrs Arvonja Evans a Mrs Betty Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Jane Jones, Mrs Enid Owen a Mrs Eluned M Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

CUBS LLANBERIS: Dymuna'r 'Cubs' a'r arweinyddion ddiolch i bawb o'r pentrefwyr o bob sefydliad ac hefyd i'r ymwelwyr a gyfrannodd ac a gefnogodd eu hymdrechion yn ystod "wythnos waith 1988". Diolch yn fawr iawn i bawb.

PWYLLGOR CYHOEDDUSRWYDD

LLANBERIS. Yng nghyfarfod Blynnyddol Cymdeithas

Cyhoeddusrwydd Llanberis, ddydd Mercher 23ain o Fawrth dywedodd Mr Owain Wynne, Swyddog Twristiaeth Arfon fod yr ardal wedi ei hyrwyddo yn lwerddodn, Yr Alban a Lloegr ac y gallwn ddisgwyl mwy o ymweliadau byr gan dwristiaid yn hytrach na'r gwyliau haf traddodiadol yn y dyfodol. Teimlid y dylid hyrwyddo mwy ar Lanberis y tu allan i Gymru a rhoi croeso da i ymwelwyr pan ddônt yma. Dymunai masnachwyr y Stryd Fawr weld mwy o ymdrech yn cael ei wneud ynglŷn a sbwriel hyd y stryd a glaslanciau'n sefyllian. Hysbysodd y warden newydd y bydd tâl yn cael ei godi ar gychod ac ati fydd yn mynd ar Lyn Padarn. Codir hysbysfyrddau ac arwyddion at atyniadau lleol yn fuan. Unrhyw awgrymiadau ynglŷn ag arwyddion llwybrau i Mr J Davies Jones, Cwellyn, Caernarfon os gwelwch yn dda.

PERSONOL: Dymuna Owain Rees Jones, Ger y Llyn, 49 Maes Padarn, Llanberis ddatgan ei ddiolch i'r canlynol, Y Rheithor a Mrs Hawkins, Nyrs Marian, Doctor Maren, a chriw yr Ambiwilans am eu caredigrwydd yn y Gwasanaeth Sul y Blodau yn Eglwys St Padarn Llanberis, pan gafodd ei daro yn wael. Mae yn teimlo'n llawer iawn gwell erbyn hyn ac yn hynod o ddiolchgar i bawb a oedd yn y gwasanaeth y bore hwnnw ac i bawb o'r pentref am eu caredigrwydd ac am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

DIOLCH: Dymuna Ken ac Anne Hughes, 21 Stryd Goodman, ddiolch o galon i bawb am y nifer o gardiau,

anrhegion a dymuniadau da a gawsant ar achlysur genedigaeth eu merch fach Carys Wyn. Diolch hefyd i staff ward Arfon, Ysbyty Dewi Sant Bangor ac i'r fydwraig leol.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Rhiannon a Dafydd Pentre Castell ar enedigaeth eu mab bach cyntaf David Lee.

hefyd i Jane a Garry, Stryd Turner ar enedigaeth eu merch fach, chwaer i Barry.

i Gwyn a Iona, Maes Padarn ar enedigaeth eu mab bach cyntaf.

i Glenys ac Arthur (gynt o Dol Elidir) ar enedigaeth eu mab bach.

ac i Wendy (gynt o Dol Elidir) ar enedigaeth ei merch fach chwaer i Paul.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Stanley Owen, Avril a Dylan yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer sef Mrs Carol Owen. Yr oedd Mr Owen a'r teulu oll yn byw yn Llanberis cyn ei ymdeoliad fel Prifathro Ysgol Dolbadarn.

Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau Mrs Catherine Evans, Dol Eilian a chydymdeimlwn hefyd â Mrs Owen a'r ferch, Rhes York yn eu profedigaeth o golli priod a thad sef Mr R Owen.

GWELLHAD: Mae Mrs Annie Jones, Dol Eilian; Mrs Ann Roberts, Maes Padarn; Krispin Hawkins, Y Ficerdy a Keith Roberts, Dol Elidir wedi cael damwain yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i'r pedwar.

Dymunwn adferiad iechyd hefyd i Mrs Jean Roberts, Maes Padarn; Mr John Parry, Maes Padarn; Mrs Elsie M Lewis, Dol Elidir; Mr Bob Hughes, 7 Stryd Siarlot; Mrs Rhona Thomas, Stryd Newton; Mr Bert Parry ac i Meira Pitts. Nid ydynt wedi bod yn dda yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mrs Enid LI Roberts sydd wedi dychwelyd i'r ysbyty am driniaeth lawfeddygol.

Dymunwn wellhad buan hefyd i'r rhai canlynol, Annie May Jones, Glanrafon Bungalows; Mr G Williams, Rhes y Cae; Ambrose G Fleming, Dol Elidir; Mrs Betty Graham, Dol Elidir; Miss Carol Jones, sydd yn yr ysbyty yn Aldershot.

CYDYMDEIMLWN â Mr Tecwyn Hughes, 1 Stryd Yankee a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli modryb o'r Rhiwlas.

DIOLCH: Dymuna Stanley ac Eirlys Owen a'r teulu fynegi eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd at Ymchwil y Cancr.

DIOLCH: Dymuna Darren Price (Padarn Cabs) ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau,

anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

Ynglŷn â'r llun ar dudalen olaf yr Eco o'r rhifyn diwethaf gan Mair Corby; daeth y wybodaeth a ganlyn am y llun gan Mrs Nellie Morris, Dol Elidir, sef gweddw Mr Alun Morris sydd yn y llun. Tim Dart Gwesty Castle ydyw. Perchnogion y gwesty ar y pryd oedd Ruth ac Arthur Greenwood sydd yn byw heddiw yn Holinfirth yn 81 ac 82 oed. Cafodd Mrs Morris lythyr gan Mrs Greenwood ar ôl iddi yrru y llun i fyny ac yr oedd yn dweud eu bod yn meddwl llawer am yr amser braf a gawsant tra yn Llanberis. Yr oedd yn dweud fod ganddi luniau eraill o'r hogiau hefo cwpan am ddarts ac un am dîm dominoes. Llun y sawl sy'n dal y gwpan yn eistedd wrth ochr Mrs Greenwood yw Chris Davies ac nid Len Jnes, hwyrach mai Len wnaeth dynnu y llun? A oes gan Mair Davies hen lun o garnifal Llanberis pan oedd yn byw yn Llanberis. Mi fuasai yn ddiddorol eu gweld gan y bydd Carnifal Llanberis ymhen ychydig fisoedd.

LLUN Y RHOSIO Ych yn Llanberis: Y ddwy ferch yn y cefndir oedd Mrs Catherine Evans a fu farw yn ddiweddar a Mrs Jane Jones, Peris View.

LLUNIAU YSGOL DOLBADARN: Anfonodd Mrs Jean Roberts, 13 Strydd Goodman, Llanberis restr o enwau'r rhai oedd yn y lluniau. Mae hi ei hun yn y ddau lun (Jean Pritchard). Llun uchaf 1939 Dosbarth 7 (David J. Owen); Llun isod 1930 Dosbarth 1 (Rhiwen Jones).

Dosbarth 7. (David J Owen) 1939
Rhes uchaf: Edmond Parry; Eirwy Roberts, Cledwyn Jones, Harold Griffiths, Jackie Griffiths, Gerald Morgan. Ail res: Willi W Hughes, Jean Pritchard, Laura Williams, Kathy Owen, Elsie M, Muriel Jones, Mary Lewis, John Hughes.

trydydd res: Betty Roberts, Mair Griffiths, Glenys Jones, Edwina Jones, Eileen Roberts. 4ydd res. John H Williams, J Glyn Jones, Gwilym Roberts, Eric Owen.

Dosbarth 1. 1930 (Rhiwen Jones)
Rhes uchaf: ?, Jackie Griffiths, Eirwyn Jones, Reg Hughes, Jackie Parry, Llew Hughes, Cledwyn Jones, John Hughes. Ail res: Glyn Jones, Bettie Humphreys, Anni M Griffiths, Margaret Wood, Bettie Jones, Eleanor Pritchard, Elsie Roberts, Edwina Jones, ?, Muriel Jones, Harold Griffiths. 3ydd res: Richie Davies, Gwyneth LI Roberts, Jean Pritchard, Mair Griffiths, Beryl Hughes, Jenny P Owen, Laura Williams, Wilbert Davies. Rhes isaf John H Williams, Bob LI Roberts, Gerald Morgan, ?, Stanely Fokner, Ernest Robert, Eric Owen, Eirwy Roberts.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB POBOL Y CWM: Wrth gefnu ar fisoedd oer a glawog y gaeaf a theimlo'r hîn yn cynhesu trefnwyd pleserdaith ar gyfer dydd Iau Ebrill 7. Llandudno oedd at-dyniad mwyafrif o'r aelodau a mwynhawyd hamddena ymysg y siopau a thro byr i olwg y môr. Oherwydd gwaeledd a gwahanol amgylchiadau methodd rhai o'r aelodau ymuno â'r daith, a dymunir adferiad llwyr i Mr Hugh Pritchard Bryn Gwynedd sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

DR. BARNARDO: Diolch i'r canlynol am fynd o amgylch y pentref i gasglu arian tuag at gartrefi Dr. Barnardo - Myfanwy Roberts, Alison Jones, Nia Hughes a Carys Williams. Y cyfanswm oedd £31.

WEDI GWELLA: Da yw deall fod Terry Williams, Glanbogelyn wedi gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CLWB IEUENCTID: Daeth tymor presennol y clwb i ben nos Iau 15ed

Ebrill ac ni fydd y clwb ar agor erio tan ddechrau mis Medi. Fel y soniwyd mis dwythfa yn yr Eco fe lwyddodd rhai o'r aelodau i fynd i lawr i Gaerdydd ar y 5ed o Ebrill i weld rhaglen 'Stid' yn cael ei recordio yn stiwdio H.T.V. Er bod y daith nôl a blaen i Gaerdydd ar y bws yn un flinedig profodd yn drip llwyddiannus a diddorol iawn. Treuliwyd y prynhawn yn crwydro o gwmpas siopau y brif ddinas ac yna cyn recordio y rhaglen deledu ei hun cafwyd cyfle i weld y gwaith sydd yn mynd tu 7ol i wneud rhaglen o'r fath. Diolch i Mr John Williams o Glwb Ieuencid Llanberis am drefnu'r cyfan. Hefyd yn ystod y mis a aeth heibio cafodd yr aelodau flas ar beth mewn gwirionedd yw ymarfer 'karate' pan ddaeth criw o Ganolfan Hamdden Arfon Atom i ddangos faint o waith hyfforddi a disgyblaeth sydd yn angenrheidiol i feistrol'r grefft yn iawn.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)



CAPEL CEUNANT: Prynhawn Sul Ebrill 3ydd cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i dderbyn Nia a Catrin Parry, Tony Storey a Gwenno Parri yn gyflawn aelodau o'r eglwys. Cyflwynwyd Y Beibl Newydd ar ran yr Eglwys gan y Gweinidog, Y Parch. John Morris i'r pedwar, hefyd i Einir Parri yn ystod y gwasanaeth.

Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa

am 7.30 nos Fercher Mai 18fed
yn Oriel Eryri Llanberis

Robin Williams yn darlithio ar
T.H. Parry Williams a'i ddiereidi

Hefyd Cyfarfod Blynnyddol
Dewch i gefnogi!

D.S. Ni chynhelir taith i'r Wybrnant ym
mis Mehefin - ceir manylion o'r cyfarfod
yn rhifyn nesaf yr 'Eco'.

GALW DDOE I GOF

(Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch, Mrs Mem Pritchard).

Pan oeddwn i yn beadir ar ddeg oed yn y flwyddyn 1916, mi ges i fynd i Lundain i weithio mewn tŷ doctor. Roedd hi yn ddipyn o siwrna o Gaenarfon efo trê, ac mi oeddwn i wedi blino yn arw. Roedd fy chwaer Phoebe yn gweithio yno yn barod ac mi oedd hi yn falch iawn fy ngweld. Pan gyrhaeddais roedd hi yn yr ardd yn bwydo yr ieir.

Roedd na ddau o blant yno, babi newydd a hogyn bach a dipyn o nam-meddwl arno tua tair mlwydd oed.

Roedd y gwaith yn galed iawn, iawn. Gan fod fy chwaer yn bymtheg oed roedd hi yn cael molchi a gwisgo mewn ffrog ddu, barclod gwyn a cap bach gwyn ar ei phen, er mwyn iddi hi gael ateb y drws ffyrnt. Cyn cinio bob dydd felly roedd yn rhaid i mi wneud y gwaith budur i gyd ar ben fy hun. Mi fyddwn i yn ddu fel Sweep ar ôl blacledio y grat fawr hen ffasiwn yn y gegin, ac wedyn mi oedd rhaid sgwrio llawr teils y gegin, gegin bach a'r pantri bob dydd. Ar ben hyn roedd eisiau sgwrio hen fangl mawr hen ffasiwn, a bwrdd mawr a cwpwrdd llestri, ac mi oedd na hen stôf nwy ddu hyll eisiau ei llau.

Dynas gas a blin iawn oedd y feistres, a golwg flin arni bob amser. Roedd ei mam yn aros hefo hi, achos mi oedd y doctor i ffwrdd yn Ffranc yn y rhyfel. Hen ddynes gas iawn oedd y fam, ac mi oedd arna i ei hofn hi am fy mywyd. Mi

oeddwn i yn cael tafod o hyd am edrach yn fudur, ond anamal iawn oeddwn i yn cael amser i molchi, achos mi oedd hi yn nos dywyll cyn i mi orffen sgwrio y lloriau i gyd.

Dyn o Dde Cymru oedd y dyn llerith, ac mi oedd o yn teimlo yn arw drostom ni yn gweithio i ddynas mor gas. Dyn tal tenna, clên iawn, hefo gwallt a mwstach coch, a sanna coch a rheini i'w gweld bob amser.

Yr unig dro y cafodd fy chwaer a finna fynd allan hefo'n gilydd oedd i'r Theatr i weld sioe dda iawn. Ddarau ni ddim meddwl gadael cyn diwedd y sioe, a dyma ni yn talu dime i fynd adra ar y tram reit hwyr. Erbyn cyrraedd adra mi oedd y drysau i gyd wedi cloi, ac mi oeddynt yn gwrthod agor i ni. Ninnau ein dwy yn eistedd ar y step drws, ddim yn gwybod beth i'w wneud.

(Parhad yn y rhifyn nesaf.)

CARIO LLWCH LLECHI I HELPU'R STEDDFOD

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989

Ydych chi wedi dringo i gopa'r Wyddfa yn ddiweddar? Os na, beth am ymuno gyda'r llu sy'n bwriadu mynd ddydd Sadwrn, 11 Mehefin i godi arian i Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989?

Y gobaith yw y bydd 1,000 o bobl yn ymuno ar y daith o Lanberis i'r copa, a gyda phob un wedi casglu o leiaf £10 yr un o nawdd, gobeithir chwyddo coffrau'r Eisteddfod gyda dros £10,000.

Ond nid yr Eisteddfod yn unig fydd yn elwa o'r daith hon gan y disgwylir i bob cerddwr gario rhyw ddeg pwys o lwch chwarel i alluogi gweithwyr Parc Cenedlaethol Eryri i drwsio'r llwybrau sy'n arwain at y copa. Darperir y llwch mewn bagiau arbennig gan y Parc Cenedlaethol, a disgwylir i'r cerddwyr ei gario am oddeutu milltir o'r daith.

Dywedodd llefarydd o Swyddfa'r Eisteddfod fod nifer dda wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan yn y daith eisoes. "Cafwyd galwadau ffôn gan bobl o Ynys Môn a rhannau o Glwyd yn gofyn am ffurflenni nodd, ac y mae nifer o fusnesau a sefydliadau lleol wedi addo anfon tîm i gerdded i'r copa", meddai.

Ar ddiwedd y daith cyflwynir tystysgrif arbennig i bawb fydd wedi cymeryd rhan.

Mae'r ffurflenni nodd ar gael yn Swyddfa'r Eisteddfod, Y Sgwâr, Llanrwst, Gwynedd (Ffôn: Llanrwst 640281)

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon (3536)

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn dwys iawn â Mrs Williams 'Refail a'r teulu oll yn eu colled fawr. Bu farw Mr Williams yn sydyn ddiwed mis Mawrth wedi cyrraedd oedran teg o 96. Bydd colled mawr ar ei ôl yn y pentref.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Cynhelir y Gymanfa ddydd Sul y 1af o Fai. Pregethir yng Nghapel y pentref ar y Suliau canlynol am 2 o'r gloch y prynhawn.

Mai 8fed - Parch Harri Parri, Caernarfon; 15ed - D. Ll. Williams; 22ain (Sulgwyn) Parch John Owen; 29ain - H. Jones Parry.

PLAID CYMRU: Cynhelir Ffair Wanwyn yn yr hen ysgol Bontnewydd, nos Wener Mai 13eg am 6 yr hwyr. Croeso i bawb.

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

CWSTAD WY

- Y Gwalch

"Ssut wyt ti ersstalwm?" medde rhyw lais cyfarwydd y tu ôl i mi pan oeddwn i'n sefyll wrth ddrws siop y Fferyllydd yn y dre. "Dydw i ddim wedi dy weld di erss pobiad neu ddau."

A phwy oedd o ond yr hen fachgan hwnnw sydd wedi cymeryd lle y Deryn Mawr.

"Dwad i mi," medda fo. "Ydyn nhw'n gwerthu rhywbath i mewn 'na at ddannadd gossod yn chbianu?"

"Wn i ddim," medda fi. "Fyddwch chi ddim gwaeth na gofyn."

"Tyrd hefo fi," medda fo, "i ni gael gweld," ac mi gymerias fy mherwadwio, ac erbyn hynny wrth wrando arno fo yn dweud ei gwyn, roeddwn i'n dechra meddwl mai yng nghae rasmus cwn yr oeddwn i.

"Aros," medda fo gan ail gyfeirio ei gamra. "Mi awn ni at y stondin cossmeticss 'ma."

Roedd yna hogan yn y fan honno mewn côt wen a'i henw hi ar bocad honno, ac yr oedd hi'n amlwg yn rhoi ei hun yn dipyn o chapan. Roedd hi wedi cael bwffio ei gwallt, ac wedi paentio ei haelia fel pe tasa hi yn mynd rownd i hysbysebu sycas Bertram Mills, ac yr oedd ganddi fysadd cochion ddigon â gwneud i rhywun ddisgwyl gweld cacynod yn dwad ohonyn nhw. Wrth weld yr hen fachgan yn bodio'r ffiola hefo'r dwylo myffadins rheiny sydd ganddo fo, dyma hi'n gofyn fasa hi'n gallu bod o rhyw help iddo fo. A dyma fynta yn ail adrodd ei gwtiwn.

"Ssgynoch chi rhywbath at ddannadd gossod yn chbianu misss?"

"Be' ydach chi'n feddwl?" meddai hitha gan daflu rhyw drem herfeiddiol ar feidrolion y llawr, ac arnaf i yn enwedig.

"Isio rhywbath yn ei geg mae o," medda fi, "i rwystro gwynt 'run fath â brws o dan drws."

"Wela i," medda'r hogan, a throi i edrych y silffoedd y tu ôl iddi. Wedyn dyma hi'n nôl ystol bach ac yn dechrau ei dringo hi i gyrraedd y silffoedd ucha. Wn i ddim a oedd hi dipyn yn ansicr o wybod ei bod hi o dan wyladwriaeth ai peidio, ond roedd hi wedi mynd i wablian, a ddaru yr hen fachgan ddim ychwanegu dim at ei hyder hi trwy weiddi.

"Tendiwch syrthio yng ngenaeth i. Peidiwch a spio i lawr beth bynnag wnewch chi". Ac wrth a i dyma fo'n deud. "Dos i ddal dani hi faswn i yn dy le di rhag ofn iddi gael codwm."

Ond pan es i o dan yr ystol aeth yr hogan i siglo yn waeth, ac yr oedd ei sylw hi yn fwy arnaf i nac ar y silffoedd.

"Tydach chi ddim i fod yn y fan yna," meddai hi. "dim ond y staff sydd yn cael dwad y tu ôl i'r cowntar." Ac oddiyno y dois i er mwyn tawelu ei meddwl hi.

Pan ddaeth hi i lawr o'r diwadd roedd ganddi rhyw flwch glas yn ei llaw, a dyma hi yn ei estyn i'r hen fachgan.

"Mae hwn yn beth reit dda i ddannadd gosod," medda hi.

"Be' mae o'n neud iddyn nhw felly?" gofynnodd ynta.

"Darllenwch beth mae o'n ddeud ar ei ochr o," medda hi.

Ond er bod ganddo fo wydrau fel gwaelod pot jam, roedd y print yn drech na fo. "dowch i mi ei weld o," medda'r hogan a chipio'r blwch oddi arno fo, a dechrau darllen.

Erbyn iddi hi orffen, roedd y stff yn y blwch yn ôl beth ddeallais i, yn rhagorol i ddannadd gosod ym mhob cyflwr ond rhai wedi bod o dan stîm rolar. Ond doedd y cwsmar ddim wedi ei lwy argyhoeddi.

"Dydw i ddim yn deud ei fod o'n beth da i rwystro nhw syrthio o'ch ceg chi," medda fo.

Roedd yr hogan erbyn hynny wedi mynd i droi ei llygada tua'r nef ac ochneidio, ac yr oedd yna ddwy neu dair o lefrod hefo sgertia tynn a gwalltia hala binna erbyn hyn wedi dechra casglu y tu ôl i ni, yn dymuno cael sylw yr hogan, ac nid eu llygada yn unig roeddau nhw yn droi.

"Yr hen wraig acw sy'n cael helynt fel 'na hefo'i rhai hi wyddost ti," medda fo wrtha i. "Mi rydw i wedi bod hefo hi ers hannar can mlynadd mwy neu lai, a doedd byw na marw na fasa hi'n cael mynd allan i ddathlu'r achlysur. Ac mi es â hi, er a deud y gwir mi fasa'n llawn cystal gen i fod wedi cael powliad o fara llaeth wrth y tân."

Beth bynnag dyma ni yn mynd i rhyw dŷ bwyta ymhen draw'r dre 'ma; lle bach dymunol; mi faswn yn medru ei gymeradwyo fo i ti. Oilcloth glân ar y byrdd a gyd a'r poteli sôs yn llawn, ac mi roedd yn ddigon hawdd i ti ddeud eu bod nhw

yn newid y llwch lli yn y spitwys yn reit amal. Roedd yna rhyw hogan bach reit ddel reit glen yn tendiad arnan ni, a brat cwtâ ganddi hi; ddigon a thynny dy feddwl di oddiar dy fwyd. a dyma hi'n sefyll wrth fy mhen i hefo papur a phensal, a dyma fi'n ordro slap y ffid; dau bot o de a Swiss Roll. Ond roedd yn rhaid i'r hen wraig gael bod yn groes fel arfar. Thala dim gynni hi ond cael lobscows trodnoth, ac mi ddaeth yr hogan â phowliad a'i sodro hi o'i blaen hi, a dyma hi'n cythru iddo fo achan fel bytheud ar ei gythlwg. Ond y llwyd gynta, dyma ei dannadd hi'n syrthio yn glec ar y bwrdd a thorri yn gratchian, ac mi fuo raid i mi berswadio'r hogan bach honno ddwad â llond gwydr o ddŵr, iddi gael eu cadw nhw nes yr oedd hi wedi gorffan y lobscows hefo'i gyms.

"Oeddat ti'n licio hwnna?" medda fi wrthi ar ôl iddi fynd i waelod y bowlan.

"Oeddwn yn eitha," medda hi, "Ond taswn i'n gwobod mod i'n mynd i golli fy nannadd mi fasa yn llawn gwell gen i fod wedi cael cwstad wy."

Roedd yr hogan erbyn hyn wedi ei chyfareddu ac wedi anghofio pob dim am y blwch, ac yr oedd y genod y tu ôl yn glustia i gyd hefyd, ac yr oedd un ohonyn nhw yn clecian gym swigod yn fy nghlust i, ac am ddim a wyddwn i, mi allasa fod yn gadeiryddes rhyw fudiad i amddiffyn iawnderau merchad, a does wybod sut y basa petha wedi troi oni bai i ni glywad rhyw lais o gyfeiriad y drws.

"Ydach chi wedi cael rhywbath at ych dadd Hiwi? Fydda well i chi ddwad oddi wrth y genod 'na neu mi gollwn y Moto Glas."

Rhoddodd hynny gyfle i minnau gymeryd arnaf fy mod i newydd gofio fod fy moto innau ar fynd, ac oddi yno y dois i mor dinfain ag yr oedd modd, ond wrth dremio drwy'r drws gwydr, gwelais fod dwy hogan gôt wen arall wedi cyrraedd erbyn hyn, a'r manijar. Roedd hwnnw yn rhedag ei gadach pocad o gylch ei war, ac yr oedd yr hen fachgan fel pe tasa fo yn dal ar gyfyng gyngor gymera fo'r blwch glas a'i peidio. Os y digwydd i mi daro arno fo rhyw dro eto, mae'n siwr y cafi wybod, a hynny heb fynd i holi llawer.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON

Bu'r mis diwethaf yn un prysur iawn i aelodau'r clwb. Ar nos Wener Ebrill yr 8fed trefnwyd disgo yn Neuadd Goffa Bethel i blant ac ieuencid yr ardal. O ganlyniad i'r noson yma cyflwynwyd sic o £50 i gronfa Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle 1990.

Treuliwyd nos Fawrth 12fed Ebrill yn trafod cystadlaethau'r Rali Flynyddol, sydd i'w chynnal ar Fferm Dolwgan, Cwm Pennant. Y Rali yw uchaffwynt calendr y ffermwyr ieuainc. Bydd yr aelodau yn treulio nifer o nosweithiau yn ystod yr wythnosau nesaf yn paratoi ac yn cael eu hyfforddi ar gyfer cystadlaethau'r Rali.

Bu'r aelodau o gwmpas gorsaf Bwer Dinorwic nos Fawrth Ebrill 19. Roedd yn noson ddiddorol ac addysgiadol. Syfrdanwyd yr aelodau gan faint y pwerdy a'r peiriannau enfawr, rhai y mwyaf o'u math yn y byd.

Nos Iau 21ain bu'r aelodau ym mhlas y Brenin Capel Curig yn sgïo. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn er gwaetha ambell glais.

Cynhaliwyd nifer o gystadlaethau sirol ac ar raddfa Cymru yn ystod y mis diwethaf. Dewiswyd dwy o glwb Caernarfon sef Nia Lyn Jones a Gail Warrington i gynrychioli Eryri yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus dan 16. Llongyfarchwyd y ddwy am ddod yn Sed drwy Gymru. Nos Fercher yr 20fed o Ebrill cynhaliwyd cystadlaethau pwl a dartiau'r sir. Tîm Caernarfon oedd: Pwl: Andrew Jones a Helen Jane Jones. Dartiau: Sengl Merched, Rachel Griffiths; Sengl Bechgyn, Aled Jones. Dwbl Agored Rachel Griffiths ac Aled



Jones. Cynhaliwyd y cystadlaethau yng Nghlwb Rygbi Caernarfon

Os oes unrhyw un â diddordeb ymuno â'r Clwb gellir Cael mwy o wybodaeth gan gadeiryddes y clwb - Myfanwy Jones, Glan y Gors, Bethel. Ffôn: Y Felinheli 670071.

**COFIWCH AM
GYFARFOD
CYFFREDINOL
BLYNYDDOL YR ECO
NOS IAU, MAI 5
NEUADD BETHEL
AM 7 O'R GLOCH**

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)

CURIAD CALON CYMRU

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GWOBRAU TIR NA N-OG

Prif nod gwobrau Tir na n-Og yw cydnabod gwaith awduron ar arlunwyr; dyrchafu safonau ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifainc, a hybu prynu a darllen trwy ddwyn y cyfryw lyfrau i sylw'r darllenwyr. Cyflwynir dwy wobwr Gymraeg.

Y gwobrau Cymraeg

1. Ffuglen orau'r flwyddyn

Cyflwynir y wobwr am ffuglen orau i blant i Gwenno Hywyn am ei nofel 'Tydi Bywyd yn Boen!', nofel ar ffurf dyddiadur ar gyfer yr arddegau. Oherwydd y portread credadwy o berson cig a gwaed y gall darllenwyr ieuainc uniaethu â hi; adnabyddiaeth ryfeddol yr awdur o gyfnod adolesens; sylwadaeth ar rai o broblemau a nodweddion ein hoes, megis diweithdra, heddychiaeth, ffeministiaeth a chadw'n heini; yr hiwmor yn y mynegiant; apêl y gyfrol at ei chynulleidfa — cynulleidfa sy'n gallu bod yn anodd ei boddhau; clawr bendigedig Will Rowlands; roedd y panel dewis yn gwbl gytûn y dylid dyfarnu'r wobwr am y ffuglen orau i Gwenno Hywyn.

Cyhoeddir y nofel gan Wasg Gwynedd. Comisiynwyd y llyfr gan y Cyngor Llyfrau Cymraeg fel rhan o'u cynllun ar gyfer darparu deunydd i'r arddegau.

Yr awdur

Magwyd Gwenno Hywyn yn Llundain

nes yr oedd yn dair ar ddeg oed ac yna bu'n byw ym Mhorthmadog a Phen-y-groes. Graddiodd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, a bu'n athrawes ail-iaith am gyfnod. Ym 1982 rhoddodd y gorau i ddysgu er mwyn canolbwyntio ar ysgrifennu. Mae'r awdur yn fam i ddau o blant ac yn awr yn byw yn Llandwrog.

Tydi Bywyd yn Boen yw ail nofel Gwenno Hywyn; cyhoeddwyd Cyfrinach Betsan Morgan ym 1986 a Dydi Pethau'n Gwella Dim! dilyniant i 'Tydi Bywyd yn Boen!' ym 1987.

2. Llyfrau eraill y flwyddyn


Dyfarnwyd y wobwr am lyfr gorau'r flwyddyn ym 1988 i Yr Atlas Gymraeg, a olygwyd gan Dafydd Orwig. Dyma lyfr sy'n glasu'r yn ei faes ac y mae'r gwaith o ddysgu daearyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cyrraedd rhyw fath o benllanw gyda chyhoeddi'r gyfrol hon. Fe'i cyhoeddir gan George Philip a'i Fab Cyf, dan gynllun Gwerslyfrau ac Adnoddau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.

ECONOMEG Y CARTREF

Hwn yw'r cyntaf o bum llyfr. Bydd y pedwar sydd i ddilyn ym ymwneud yn benodol â'r pedair cangen y cyffyrddir â nhw yn y gyfrol gyntaf hon, sef, Y Cartref a'r Teulu, Bwyd a Lechyd, Tecstilïau, Datblygiad y Plentyn.

Ffrwyth prosiect yr estynnwyd nawdd ariannol iddo gan y Swyddfa Gymreig yw'r llyfryn. Fe'i anelwyd yn bennaf at ddisgyblion yn eu pedwerydd a'u pumed blwyddyn yn ein hysgolion uwchradd. Ond fe ddylai ei apêl estyn y tu allan i furiau'r ysgol gan fod o gymorth parod i wŷr a gwragedd ifanc sy'n ceisio sefydlu cartref a chychwyn teulu. Mae ar gael yn y siopau llyfrau am £3.95. Mynnwch olwg arno: chewch chi mo'ch siomi.

ECONOMEG Y CARTREF



C44

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Atlas Adnoddau CBAC

Gwasg Prifysgol Rhydychen £1.75

Atlas Safonol ar gyfer arholiad Daearyddiaeth Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd CBAC.

Y Gwareiddiad Celtaidd

gol Geraint Bowen

Gwasg Gomer £8.75

Cyfes o ddarlithoedd gan arbenigwyr ar hanes y Gwareiddiad Celtaidd.

Storiau Iesu

Timothy Dudley Smith (Addas. Cynthia Saunders Davies)

Ty John Penry £4.50

Cyfrrol sy'n ailadrodd hanes bywyd Iesu i blant.

Cyfrinachau

gan Rhian Glyn

Gwasg Taf £1.95

Nofel i ieuencid yn eu harddegau.

Gwrachod Cymru Ddoe a Heddiw

gan Eirlys Griffydd

Gwasg Carreg Gwalch £1.50

Hanes y gwrachod a fu'n byw yng Nghymru, o'r dyddiad cynnar hyd at heddiw.

Cof Cenedl III

gol. Geraint H. Jenkins

Gwasg Gomer £3.95

Y drydedd gyfrol mewn cyfres o ysgrifau ar Hanes Cymru.

Gyrfa'r Gŵr o Dregaron

gan Cathy Jones

Ty John Penry £3.75

Cyfrrol a gyhoeddir ar achlysur canmlwyddiant marw Henry Richard, 1812-1888.

Dylunio'r Delyneg

gan Stephen Jones

Cyhoeddiadau Barddas £4.50

Cyfrrol o gerddi.

Y Pregethwr at Iws Gwlad

gan Harri Parri

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd. 80c

Darlith flynyddol Llŷn, 1987, lle sonia Harri Parri am bregethwyr cefn gwlad.

Cysgodau'r Palmwydd

gan Dewi W Thomas

Ty John Penry £5.25

Cyfrrol o atgofion Dewi W Thomas, gŵr o Sir Benfro a fu'n offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru hyd ei ymddeoliad.

William Morgan a'i Feibl: William

Morgan and His Bible

gan Isaac Thomas

Gwasg Prifysgol Cymru £3.95

Cyfrrol sy'n olrhain prif gamau gyrfa William Morgan, a'i orchest wrth gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg.

Darllen a Deall y Beibl

gan Chris Wright (Addas. Arfon Jones)

Gwasg Efengylaidd Cymru £2.95

Y diweddraf mewn cyfres o gyflwyniadau byr a bywiog i'r ffydd Gristnogol, wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer ieuencid 14-18 oed. (Cyfres Llawlyfrau'r Llew).

LLAWLYFR DWYIEITHOG AR GYFER DISGYBLION LEFEL 'A'

Ar 11 Ebrill dechrau Tymor yr Haf, daeth cyhoeddiad diweddaraf Gwasanaeth Gyrfaoedd Gwynedd allan, yn dwyn y teitl "Ar ôl Lefel 'A' Chi Biau'r Dewis". Y llyfryn yw'r llawlyfr dwyieithog cyntaf o'i fath i gael ei gyhoeddi yng Nghymru.

Fe'i rhennir gan Swyddogion Gyrfaoedd i bob disgybl lefel A ym mlwyddyn gyntaf y 6ed dosbarth yng Ngwynedd ac fe'i cynlluniwyd yn arbennig i gynorthwyo gyda'r penderfyniadau y mae'n rhaid i ddisgyblion y 6ed dosbarth eu gwneud ynglŷn â'u dyfodol — penderfyniadau sy'n dod yn fwy fwy cymhleth:

A ddylwn i fynd i Goleg?

A fyddai'n well i mi fynd i swydd yn syth ar ôl Lefel 'A'?

Pa gwers ddylwn ei ddewis ac ym mhle?

Mae'r llyfryn yn rhoi manylion am sut i ddewis cwrs a'r dulliau o wneud ceisiadau a hefyd yn edrych ar y posibilïadau o gael gwaith ar ôl Lefel A ac ar ôl Addysg Uwch, gan

dynnu sylw ar Yrfaoedd lle mae prinder siaradwyr Cymraeg.

Mae testunau eraill yn cynnwys Grantiau a Nawdd, Cyfleoedd Cyfartal, Addysg Uwch ar gyfer pobl dan anfantais, Gweithio drosoch eich hunan.

Mae nifer cyfyngedig o gopiau ar gael, pris £1.50 o Swyddfa Gyrfaoedd y Sir, 2 Stryd y Castell, Caernarfon.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

NSPCC: Cynhaliwyd pwyllgor o'r Gangen newydd 'Llanrug a'r Cylch' o'r NSPCC sydd yn cynnwys Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-Glo a Llanrug ar nos Iau Mawrth 24 dan lywyddiaeth Mrs Kathleen Hughes. Cafwyd sgwrs ar ei waith gyda'r NSPCC gan Mr John Townsend o Ceunant. Swyddogion y gangen yw: Cadeirydd Mrs K Hughes, Plas Pant Afon; Is gadeirydd: Mrs O Llywelyn, Pant Afon Bach; Trysorydd: Mrs V Price, Tan-y-Graig, Cwm-y-Glo. Ysgrifennydd: Mrs B Thomas, Awel Deg. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Cerys, Catrin, Daniel, Mathew, Eifion a Dilwyn am eu rhodd o £8 i gronfa'r NSPCC. Diolch yn fawr blant.

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Eluned Mair Roberts, Hafod y Rhos Llanrug ar ddathlu ei phenblwydd yn 18oed ar Mai 12fed.

CROESO ADREF: Mrs Marie Pritchard, 9 Afon Rhos. Bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a rydym yn falch o glywed ei bod yn gwella. Mae Mrs Pritchard yn dymuno diolch i deulu a chyfeillion am eu cardiau, anrhegion a'u caredigrwydd. Diolch hefyd i'r doctoriaid a'r nysrus am eu gofal.

PÊLDROED CLWB 200: Yr enillwyr y tro diwethaf oedd: Gareth Williams, 128 Rhos Rug £40; A. Roberts, Eryri House, Penygroes £20; Islwyn Roberts, 3 Bryn Moelyn £10.

GWASANAETH DERBYN: Derbyniwyd deg o bobl ifanc yn gyflawn aelodau o Gapel Mawr yn ddiweddar, sef Julie Morris, Wendy Morris, Siân Jones, Carys Pugh, Gwilym Jones, Dewi Jones, Bryn Jones, Adrian Evans, Ian Parry a Bryn Thomas. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Mrs Carys Jones.

BEDYDD: Bedyddiwyd Sam Harri a Gareth Williams Jones plant Harri a Rosemary Jones, 62 Glanffynnon yng Nghapel Mawr yn ddiweddar.

DYMUNIADAU gorau am wellhad buan i Mr Joseph Williams, 11 Bro Rhyddallt, Mrs M Hughes Jones, Bryn Afon; Mr Owen Jones Llwyn Onn; Miss Greta Davies, Grassgarth, Mrs Catherine Jones, Afon Rhos; Mrs Annie Williams, Y Foelas a Mr Owen Williams, Didfa.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Mawrth 26ain yng Nghapel Pontrhythallt, priodwyd Stephen Wynne Owen â Dwynwen Parry. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parch John Morris a'r organyddes oedd Miss Iona Jones. Dymuniadau gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â theulu y diweddar Mrs Mary Elizabeth Williams, 6 Glan Moelyn yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Kevin ac Anwen Smith, Rhos Rug ar enedigaeth eu merch fach Emma yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Selwyn a Meiriwen Lloyd, Bryn Moelyn ar enediagaeth mab bychan, brawd i Owain a Carwyn.

CAPEL MAWR: yr Ysgol Sul: Nos Iun Ebrill 18 roedd timau o fechgyn dan 11 oed Ysgolion Sul y Cylch yn cystadlu mewn gemau pêldroed pump bob ochr yn y Ganolfan Chwaraeon Caernarfon. Roedd Ysgol Sul Capel Mawr yn cael ei chynrychioli gan Iwan Rhys, Gwyn Jones, Mathew Williams, Carwyn Lloyd, Kenny Griffith gyda Dylan Williams a Dewi Owen wrth gefn. Roedd y tîm wedi ennill y Cwpan llynedd felly amddiffyn oedd raid eleni, ond yn anffodus anlwus fu'r bechgyn y tro yma, er iddynt gael gêm gyfartal a chafwyd goliau o'r smotiau (penalties) i benderfynu'r dyfarniad terfynol.

Bore Sadwrn, Ebrill 23 bydd timau Pêlwrdd dan 11 oed o Ysgolion Sul y Cylch yn cystadlu yn Ysgol Bontnewydd. Bydd ein tîm ni yn cynnwys Rhian Green, Sioned Mair Jones, Eluned Jones, Sera Thomas, Lynn Schudlak, Iona Williams, Catrin Eleni Jones a Ceren Roberts.

Byd y tîm pêlwrdd dan 14 oed yn cystadlu yn y Ganolfan Chwaraeon nos Wener Mai 13 am 6 o'r gloch, a'r tîm Pêldroed dan 14 oed hefyd yn y Ganolfan. Nos Fercher Mai 4 am 6 o'r gloch. Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Dafydd Arfon Jones, Minffrodd a Gwilym Griffith, Pant Tirion am ofalu am y bechgyn ac i Meryl Green, Pontrug am ddysgu'r genethod.

CYMANFA GANU: Cynhelir Cymanfa Ganu flynyddol y Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Caernarfon yng Nghapel Mawr Llanrug dydd Sul Mai 1 am 1.30 y pŵn a 5.30 yr hwyr. Oherwydd hyn ni chynhelir Ysgol Sul fel arfer y bore hwnnw ond gobeithwn weld y plant i gyd yn y Gymanfa yn y prynhawn.

PÊLDROED A BARBECIW: Mae pwyllgor Pêldroed Llanrug a phwyllgor Apêl Llanrug at Eisteddfod yr Urdd 1990, yn uno i drefnu prynhawn o hwyl ar gyfer y pentrefwyr i gyd ar gae Eithin Duon dydd Llun Mai 2 - Gŵyl Fai.

Bydd y gweithgareddau yn cychwyn am dri o'r gloch. Gobeithir cael timau pêldroed o wahanol

rannau a stadau o'r pentref i gystadlu, a bydd gemau i'r timau ieuencid hefyd wrth gwrs, gyda phwyllgor y Pêldroed yn trefnu.

Wedyn bydd Pwyllgor yr Urdd yn paratoi a choginio bwydydd blasus ar gyfer y Barbeciw.

Y bwriad yw i bawb fwynhau eu hunain a chael hwyl gan godi arian yr un pryd.

A ddowch chi yno i gefnogi'r fenter? Dowch debyg iawn.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Ebrill 13 yn yr ysgol gynradd, cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus iawn, wedi ei threfnu gan bwyllgor y gangen leol. Y wraig wadd oedd yr actores Mari Gwilym a chroesawyd hi gan y cadeirydd Phyllis Ellis. Cyflwynwyd basged o flodau iddi gan Gwenan Humphreys.

Hoffai'r Swyddogion ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a gyfrannodd nwyddau, gwobrau a chyfraniadau ariannol i'r ffair, ac i bawb a ddaeth yno i gefnogi a phrynu. Dyma'r enillwyr: Raffl 1. Catrin Eleri Jones, Gardd y Rhos. 2. Mrs Gwladys Jones, Dalar Deg. Potel da da Mrs Mair Hughes, Glasgoed. Enw'r ddol - Judith Jones. Diolch arbennig i staff y gegin a Mrs Helen Lewis yr ofalwraig am eu cefnogaeth a'u cymorth i wneud y noson yn llwyddiant.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher Mai 4 pan gawn Helfa Drysor sy'n cael ei threfnu gan Arwyn Roberts a Clifford Williams. Edrychwn ymlaen at noson hwyliog arall. Bydd y cier yn cychwyn o flaen Ysgol Brynrefail am 6.15 o'r gloch a derbynir enwau gan Clifford Williams, ffôn Caernarfon 4878 erbyn Dydd Sadwrn Ebrill 30. Y tâl fydd oedolion 50c, plant ysgol 25c. Darperir pryd o fwyd i ddiweddu'r noson a bydd mwy o fanylion ar y posteri yn y siopau lleol.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod Merched y Wawr yn yr ysgol gynradd ar Ebrill 12fed.

Y llywydd oedd Mrs Menna Williams, a roddodd groeso arbennig i Mrs W. A. Jones, Dalar Deg yn ôl i'n plith, hefyd anfonodd ein cofion ar Mrs Evans, Lloc. Cydymdeimlwyd â Mrs Marina Williams a golodd ei mam ynghyfraith yn ddiweddar.

Cyhoeddwyd yr Wyl Ranbarth a gaiff ei chynnal ar Fai 27ain yn Ysgol Brynrefail.

Gofynnid i'r aelodau ddychwelyd eu llyfrau raffl i'r ysgrifennydd erbyn neu yn y cyfarfod nesaf ar Fai 10fed.

Bydd y wibdaith flynyddol ar Fehefin 14eg yn mynd i Nant Gwrtheyrn, enwau y rhai sydd yn bwriadu mynd yn y cyfarfod nesaf, os gwelwch yn dda.

Y wraig wadd oedd Mrs A Hughes, pennaeth adran gwyddor tŷ Coleg Glynllifon a arddangosodd wyth o wahanol saladau a danteithion addas at yr haf. Cafwyd hyfforddiant diddorol iawn ar ddefnyddio bwyd maethlon ac edrychai'r cynnwys yn

ddeniadol iawn ar y bwrdd. Rafflwyd y cyfan ar y diwedd ac enillwyd hwy gan Bethanne Williams, Margaret J Jones, Enid Grinwalds, Phyllis Ellis, Anne Humphreys, Eileen Thomas, Heulwen Evans a Beryl Thomas.

Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Margaret F Parry. Darparwyd y banded gan Miss M Humphreys, Mrs C Roberts, Mrs K Pritchard, Mrs K Williams Mrs M Williams a Mrs I Butler. Diolchwyd iddynt gan Mrs Heulwen Evans.

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn Festri Pontrhythallt prynhawn Iau Ebrill 21. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Smith, Llechwedd, a chafwyd sgwrs ddiddorol yn dilyn gan y Llywydd, Mrs Williams Bod Fair am ei gyrfa gynnar ym Manceinion fel gweinyddes.

Rhoddwyd y te gan Mrs Katie Griffith, Fron Hyfryd, a Mrs Amy Smith, Llechwedd. Talwyd diolch iddynt gan Mrs Gwladys M Jones, Y Dalar Deg. Bydd y cyfarfod nesaf ar Mai 19, am 2 o'r gloch.

YR YSGOL GYNRADD:

Bwriadau'r Adran Ffydd mewn ymateb i argymhellion y plant - 1. Paentio llinellau "Ildiwch" wrth dafarn Penbont. 2. Gosod dau arwydd "Ysgol" newydd ar Lôn Groes. 3. Codi arwydd "Ildiwch, 50 llath" ar ffordd yr orsaf. 4. Torri brigau fel bod modd gweld yr arwydd ysgol. 5. Gwella palmant a gosod arwydd "Henoed" ger Hafan Elan. 6. Pibellau dŵr a Chau ffos ger ysgol Brynrefail. 7. Trwsio'r clawdd i lawr at Cawia. 8. Codi arwydd "Ildiwch 50 llath" cyn dod at Groeslon Marc.

Hefyd mae Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Arfon yn gofyn i Gyngor Cymuned Llanrug ystyried gosod bin sbwriel ychwanegol o flaen Ysgol Brynrefail.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

CABS THOMAS DEINIOLEN

Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049

Gwasanaeth NEWYDD yn
yr ardal!

**EMYR LL.
PARRY**
M.S.S.CH.
M.B.CH.A.

**CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF**

57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

Dyddiadur y Mis

Mai 1988

2. Llan. Gŵyl Fai Llanrug: Gemau Pêldroed a Barbeciw ar gae Eithin Duon 3 o'r gloch. Croeso i bawb.

3. Mawrth Deiniolen: Sefydliad y Merched

4. Mercher. Llanrug: Plaid Cymru. Helfa Drysor 6.15.

Yr Ardal: Gemau Pêldroed dan 14 oed Ysgolion Sul y Cylch yn y Ganolfan Chwaraeon, Caernarfon 6 o'r gloch

5. Iau. Waunfawr: Sefydliad y Merched

6. Gwener. Llanberis: Te yr Henoed Yr Ardal: Cyfarfod Cyffredinol Cwmni Theatr Eryri yn y Goat Llanwnda 8 o'r gloch. Croeso i garedigion y Ddrama.

9. Llan. Deiniolen: Disgwyf. Cyfarfod i agor Apêl wythnos cymorth Cristnogol 7 o'r gloch.

10. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. Cyfarfod Blynnyddol

13. Gwener. Yr Ardal: Gemau Pêlrwyd dan 14 oed Ysgolion Sul y Cylch yn y Ganolfan Chwaraeon Caernarfon 6 o'r gloch.

Waunfawr: Noson Goffi gan Glwb Gwryfai yn y Ganolfan

16. Llan. Bangor a'r Ardal: Cyfarfod Clwb Headway yn Ysbyty Gwynedd am 7.30 o'r gloch.

17. Mawrth. Penisarwaun: Clwb yr Heulwen

20. Gwener. Llanberis: Te yr Henoed

27. Gwener. Ysgol Brynrefail: Gŵyl Rhanbarth Merched y Wawr.

YN EISIAU TREFNYDD HYSBYSEBION A THREFNYDD PLYGU

Cysylltwch â'r
golygyddion

**Plaid Cymru
Cangen Llanrug
a'r Cylch
Helfa Drysor
Nos Fercher Mai 4 yn
cychwyn o flaen
Ysgol Brynrefail am
6.15 o'r gloch**

Enwau ymlaen llaw i
Clifford Williams ffôn:
Caernarfon 4878 erbyn
dydd Sadwrn Ebrill 30

Tâl: Oedolion 50c
plant ysgol 25c
Darperir pryd o fwyd i
ddiweddu'r noson bydd
manylion ar y posteri

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
ruag at gostau cynhyrchu'r Eco.

Ymddiheuriad

Rhodd: Derbyniwyd rhodd gan Mrs Marie Pritchard, 9 Afon Rhos, Llanrug. Ymddiheurwn am beidio cynnwys ei chyfeiriad yn gywir yn y rhifyn diwethaf.

£5: Heather Wyn Jones, Gors, Brynrefail; Megan Roberts, Gelli, Llanddeiniolen; Mrs Mair Davies, 4 Scarborough Walk, Corby; Mrs J Williams, Llangefni; Mr Meurig Owen, Llundain; Mrs Mc Carthy, Lerpwl; Mr Rowlands, Little Sutton; Teulu y diweddar Mrs Mary E Williams, 6 Glanmoelyn, Llanrug.

£3: Mrs Menna Byrne, Llanfilo; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Mr Owen Jones, Llangefni; Mr J E Williams, Bishop Auckland; Mr J Williams, Borth y Gest; Mr P W Williams, Corby; Rhodd ddi-enw; Mrs Mary E Jones, Tyn y Fawng, Dinorwig; Mrs Lissie Jones, Coed, Llanberis; Mrs Eirwen Williams, 1 Bryn Gro, Llanrug.

£2 Miss M Griffith, Caerhun; Mrs Eileen Roberts, Corby (Llanberis gynt); Mrs Jones, Hirfron, Llanberis; Mrs Beryl Owen, Maes Padarn, Llanberis; Stanley ac Eirlys Owen, 38 y Bryn, Bontnewydd.

£1 Mrs Enid Ll Roberts, Maes Padarn, Llanberis.

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON24AWR
LLANBERIS 870545

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

Un o gartrefi brafia'r fro
CARTREF PRESWYL HENOED



**BRON
ERYRI**

LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

PERCHENNOG

MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd

**Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws**

SEGONTIUM CAR · VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

CHWARAEON

NEINIAU PWY?

Daeth llun diddorol dros ben i law yn ystod y mis drwy garedigrwydd Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, Llanrug. Yn ysgrifenedig ar ei gefn mae'r geiriau 'The Llanberis District County School Hockey Team 1924.'

Cwestiwn neu ddau:

Ai dyma Ysgol Ramadeg gyntaf yr ardal yr un a'i disodlwyd gan Ysgol Brynrefail ynteu ai dyma enw gwreiddiol Ysgol Brynrefail?

Ym mhle roedd yr Ysgol?

O ystyried fod genethod yn y llun bellach oddeutu eu pedwar ugain oed, a oes rhywun a all eu henwi a rhoi rhywfaint o'u hanes?



YSGOL BRYNREFAIL RHEDEG TRAWS-GWLAD

Dewiswyd Colin Jones o Bontrug i redeg dros ei wlad ym mhencampwriaethau ysgolion Prydain yn yr Alban yn ystod gwyliau'r Pasg.

Roedd yn cystadlu yn y ras i fechgyn dan 15eg oed ac fe wnaeth yn arbennig o dda gan ddod yn 13eg. Ef oedd yr ail o'r holl Gymry oedd yn rhedeg, yn wir, daeth y Cymro a'i curodd yn ail yn y ras, bachgen o Gasnewydd oedd hwnnw.

Daeth llwyddiant arall iddo yn gynharach y mis hwn; fe enillodd Colin y ras i fechgyn dan 15eg oed ym mhencampwriaethau Cenedlaethol yr Urdd.

Yn ystod y tymor athletau presennol bydd yn cynrychioli'r ysgol yn y ras 1500 m ym mhencampwriaethau Ysgolion Arfon ym Mangor ar Fai 10fed.

CAMP DDWBL!

Mewn gêm Rhyngwladol rhwng ysgolion Cymru a Ieuencid Iwerddon ar yr Ofal, Caernarfon ar Ebrill 16 fe enillodd Stuart Williams o Fethel ei gap pêl-droed cyntaf. Eilydd oedd Stuart, ac fe gafodd ei gyfle i ymuno â'r gêm â rhyw ugain munud yn weddill yn yr ail hanner. Yn ôl pob hanes fe chwaraeodd yn arbennig o dda, yn ddigon da o bosib i ennill ei le o'r dechrau y tro nesaf. Iwerddon fu fuddugol o un gôl i ddim.

Mae Sturat wedi cynrychioli ei wlad mewn dwy gêm bellach, sef pêldroed a chriced.



PÊL-DROED

Gyda'r tymor yn dirwyn i ben, erys gobeithion y pedwar tîm Cynghair am dlysau.

Mae tîm cyntaf Llanberis ar hyn o bryd yn drydydd yng Nghynghrair Gwynedd, ac fe ychwanegwyd dau bwynt i'w cyfanswm y Sadwrn diwethaf gyda buddugoliaeth o 3 gôl i 1 yn erbyn Hotpoint. Iwan Evans yn sgorio dwy ac Emlyn Roberts y llall. Gyda chwe gêm gynghrair ar ôl i'w chwarae, y mae angen 5 pwynt arnynt i sicrhau Tarian George Lovatt i'r ail dîm yn y tabl. Dyffryn Nantlle yw'r Clwb a ddylai ddarparu y tymor ar y top. Y mae gobeithion ganddynt hefyd o ennill Cwpan Gwynedd (gêm gyn-derfynol yn erbyn Penmachno y Sadwrn nesaf) ac yna rownd go-gynderfynol y Cwpan Barrit yn erbyn Tîm Cyghrair Gogledd Cymru, Caernarfon y dydd Llun canlynol.

Tair gêm sydd yn weddill i'r ail dîm yng Nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch, ac nid oes gobaith ganddynt o ddal tîm Bontnewydd sydd ar frig y tabl. Er hynny maent drwedd i ffeinal un o gwpanau'r Gynghrair, a hynny yn erbyn y pencampwr.

Ail dîm Porthmadog oedd gwrthwynebwyr ail dîm Llanrug y Sadwrn diwethaf, ac er bod hogia Port yn drydydd yn nhabl Sain fe brofodd yn fuddugoliaeth hawdd iawn i Lanrug o 6 gôl i 1. Fe sgoriodd Dafydd Roberts 4 a Dafydd Jones a Hefin Pritchard un yr un. Nid oes gan Lanrug hwythau ond tair gêm yn weddill, a dim gobaith bellach am y teitl. Y gêm derfynol yng Nghwpan Wil Evans yw eu hunig obaith eleni, ac o ystyried eu bod wedi ennill y 6 gêm ddiwethaf, gan sgorio 36 gwaith pwy fyddai'n betio yn eu herbyn?

Mae'r tîm cyntaf 5 safle o waelod tabl Cynghair Gwynedd, ar unig beth sydd i edrych ymlaen ato bellach yw'r gêm gyn-derfynol yng Nghwpan Gwynedd yn erbyn Bro Goronwy y Sadwrn nesaf. Yn wir mae un aelod o'r pwyllgor yn edrych ymlaen cymaint nes pery iddo deithio i Fenllech i weld y gêm wythnos yn rhy fuan.

PYSGOTA

Adroddiad H.P. Hughes

Yn dilyn digwyddiadau'r 12fed o Fawrth a gafodd gryn sylw yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, fe dderbyniodd y Gymdeithas gydymdeimlad yr ardal ac am hyn yr ydym yn ddiolchgar dros ben. Mae'r dogfennau bellach yn nwylo ein cyfriethwyr a chawn weld cyn bo hir pa gamau y bydd yn rhaid eu dilyn nesaf.

O ystyried y pysgota, tawel iawn fu pethau ar yr afonydd am y brithyll ond y mae'r mudo i'r môr wedi dechrau gan gywion yr eogiaid ar Sewin. Nid yw'n beth anghyffredin i ddal dau neu dri o'r pethau bach bywiog hyn, ond da chwi rhwch nhw yn eu hôl gan eu bod yn drosedd i'w cadw.

Mae Llyn Padarn wedi 'sgota yn eithriadol o dda gyda dau o'r brithyll mwyaf ers blyneddau yn disgyn i enwri dau o Lanberis, ei phwysau oedd 4 a 3 pwys. (Gweler y llun a'r stori isod.)

Nid yw 'sgota o'r cychod wedi dechrau o ddiwedd, ac felly hogia'r glannau sydd yn cael yr hywl, ac mae'n argoeli'n dda wrth weld y nifer o dorgochiaid sydd yn dod i'r rhwyd. Clywais sôn am un gŵr wedi cael nifer helaeth o'r rhain un prynhawn, a'r cwestiwn ofynnaf yw; beth yw'r pwrpas o ddal dwsin neu fwy o rhain ac yna eu rhoi yn y rhew gell mae'n siwr. Nid yw hyn yn ddoeth gan fod eisiau meddwl am yfory.

Ychydig o eogiaid wedi eu gweld yn y Fennai. Anodd yw dweud os mai'r Seiont fydd pen eu taith ond y tebygrwydd yw mai am y Gonwy y teithiant gan na allwn obeithio gweld eog na Sewin yn yr ardal yma tan diwedd Mai.

Ar 13eg Ebrill cafodd llyn Dywarchen gyflenwad o frithyll yr enfys, a bu ar gau felly tan Sadwrn 23 Ebrill pan gynhaliwyd cystadleuaeth. Gobeithiaf gael manylion o'r enillwyr erbyn y rhifyn nesaf.

Ymhen ychydig wythnosau bydd y gwaith o glirio'r afon ym Mhenllyn a Stablau yn dechrau gan y bwrdd dŵr. Ni fydd gormodedd o aflonyddu ar y dyfroedd ac mae yn waith sydd wir angen ei wneud.

'SGODYN BRAF

Ddiwrnod cyntaf y Tymor, dydd Gwener Ebrill y 1af 'roedd Hefin Jones a'i fab Dewi, Balaclava, Llanberis wedi mynd i lan Llyn Padarn i droi'u lwc. Bachiad cyntaf y flwyddyn, ac ugain munud yn ddiweddarach fe lwyddodd y ddau i gael y pysgodyn mawr i'r lan. Edau dri phwys a hanner oedd ganddynt ac erbyn iddynt fynd a'r Brithyll Brown adref gwelsant ei fod yn pwyso pedwar pwys.



TARIAN GEORGE LOVATT

Y mae Clwb Pêldroed Llanrug, wedi taro ar syniad ardderchog i ddangos eu gerthfawrogiad o wasanaeth Mr George Lovatt fel aelod o'r Pwyllgor dros gyfnod o ugain mlynedd di-dor ers ail ffurfio'r Clwb.

Ef fu'n bennaf gyfrifol am drefnu'r gwaith o lefelu'r cae ac hefyd am godi eu ystafelloedd newid.

Fe sylweddolwyd nad oedd tlws ar gael i'r tîm ddaw yn ail yng Nghynghrair Gwynedd ac aed ati i sirhau caniatâd rheolwyr y Gynghrair i gyflwyno tarian.

Trwy ddigwyddiad hapus, Clwb Llanrug yw'r enw cyntaf a dorrir arni, gan mai hwy ddaeth yn ail i Lanberis y llynedd. Y Darrans yn eu tro sydd debycaf o'i hennill eleni.



Mr Lovatt yn cyflwyno'r darian i swyddogion y Gynghrair gydag aelodau o bwyllgor y Clwb yn gwyllo. O'r chwith i'r dde.

Bryn Davies (Ysg. y Clwb) Dafydd Owen (Rheolwr) Brian Jones (Ysg. y Gynghrair), Bob Owen (Cad. y Gynghrair), George Lovatt, Jim Foulkes (Is Gad y Gyngh.) a Goronwy Roberts (Caderydd y Clwb.)